Visit Wales
Croeso Cymru

Arweiniad i Gynllun Gradd Sêr Croeso Cymru ar gyfer FFLATIAU Â GWASANAETH

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyhoeddwyd gan Croeso Cymru
Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd CF24 0UY
Ffôn: +44 (0)1443 845500
www.cymru.gov.uk/twristiaeth

Cyflwynir yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn ddiffuant a gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau ei bod yn gywir. Ni all Croeso Cymru dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wall neu gamddehongliad. Mae pob atebolrwydd am golled, siom, esgeuluster neu unrhyw niwed arall a achoswyd drwy ddibynnu ar yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn wedi ei eithrio drwy hyn.

Hawlfraint: Croeso Cymru 2010.

Cynnwys

Gwella safonau ansawdd. Manteision cymryd rhan 3

Rhagymadrodd 4

Y Broses Raddio 5

Datganiad Hygyrchedd 6

Arfer Da o ran Hygyrchedd – Cyflwyniad 6

Arfer da o ran Cynaliadwyedd – Cyflwyniad 6

GOFYNION AM GYFLEUSTERAU SY'N GYMWYS I'R HOLL LEFELAU GRADD SÊR 7

1. Y Gofynion Cyffredinol 7

2. Cynnal a Chadw 8

3. Iechyd, Diogelwch Eiddo a Diogelwch Personol 9

4. Y tu allan 9

5. Glendid 10

6. Rheoli Effeithlon 10

7. Mannau Cyffredin Mewnol 12

8. Mannau Byw a Bwyta 13

9. Ystafelloedd Gwely 14

10. Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau 17

11. Cegin 18

12. Stocrestr y Gegin 20

ARWEINIAD AR GYRRAEDD LEFELAU ANSAWDD AR GYFER GRADD SÊR BENODOL 21

Y tu allan 22

Yr amgylchedd 24

Glendid 25

Rheoli Effeithlon 26

Mannau Cyhoeddus a Chyffredin 28

Mannau Byw a Bwyta'r Fflat 29

Ystafelloedd Gwely 37

Ystafelloedd Gwely Oriel 38
Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau 41
Ceginau 45
Cyfleusterau ychwanegol fel golchdy, cyfleusterau hamdden ee pyllau nofio 50
Côd Ymddygiad 53
Amodau Cymryd Rhan 53
Beth i'w wneud os nad ydych yn cytuno â'r Radd Sêr a roddwyd 54
Manylion Cyswllt 55

Croeso i Safonau Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru

Croeso Cymru yw tîm twristiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, o fewn yr Adran Dreftadaeth. Mae Croeso Cymru yn gyfrifol am hyrwyddo a datblygu twristiaeth yng Nghymru.

Gwella safonau ansawdd

Mae'n hanfodol cael cynnyrch llety o ansawdd da i'w gynnig i gwsmeriaid er mwyn sicrhau diwydiant cystadleuol o'r radd flaenaf yng Nghymru. Mae Croeso Cymru am gydweithio â'r diwydiant yng Nghymru i sicrhau bod ein llety'n dal yn gystadleuol o'i gymharu â hynny mewn cyrchfannau eraill i ymwelwyr. Er mwyn sicrhau cynnyrch o ansawdd da, rhaid i'r holl elfennau o brofiad yr ymwelydd, rhwng yr ymholiad cyntaf a'r adeg y bydd yn dychwelyd adref, fod yn rhai sy'n cwrdd â disgwyliadau'r cwsmer neu'n rhagori arnynt. Mae'n hollbwysig codi safonau llety er mwyn datblygu twristiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, felly rydym yn eich annog i gydweithio â Croeso Cymru drwy ein system raddio sy'n pennu safonau sydd yr un fath â'r rhai sydd ar waith yn Lloegr.

Y manteision

Mae cynlluniau Sicrwydd Ansawdd Croeso Cymru yn rhoi gwerth da iawn am arian ac yn cynnig nifer o fanteision. Drwy ymuno, byddwch yn cael cyfleoedd hyrwyddo fel:

- Eich rhestru ar wefannau **www.visitwales.com** a **www.visitbritain.com** yn ogystal â mynediad i gyhoeddiadau ac ymgyrchoedd marchnata Croeso Cymru.
- Gwybodaeth fanwl ar ôl asesu ac adroddiad dilynol gan Aseswyr Ansawdd profiadol.
- Mynediad i rwydwaith y Canolfannau Croeso.
- Tystysgrif arddangos â'ch gradd Sêr arni.
- Arwyddion i'w codi y tu allan, os ydych am eu cael. Gweler www.cymru.gov.uk/twristiaeth wedyn Graddio.
- Gohebiaeth reolaidd oddi wrth Croeso Cymru,. e.e. e-cylchlythyrau.

RHAGYMADRODD

Datblygu'r Safon

Mae galw wedi bod gan weithredwyr Fflatiau â Gwasanaeth yng Nghymru am ddull o raddio ansawdd ac am greu un sy'n wahanol i hwnnw ar gyfer llety hunanddarpar. Mae hyn yn neilltuol o bwysig i weithredwyr sydd ag eiddo ledled y DU gan fod VisitScotland a VisitEngland ill dau'n cynnig dull o raddio Fflatiau â Gwasanaeth.

Mae cynllun graddio Fflatiau â Gwasanaeth yn debyg i gynllun graddio llety hunanddarpar, gan fod tair rhan i'r broses raddio a chafodd ei sefydlu drwy gydweithio â VisitEngland.

Fodd bynnag, mae gofyn am rai cyfleusterau ar raddau sêr is o'u cymharu â'r meini prawf ar gyfer llety hunanddarpar, ac mae mwy o ofynion o ran gwasanaethau.

Y Broses Raddio

Mae tair rhan i'r broses raddio a'r rhan isaf sy'n pennu'r sgôr derfynol;

1) 1) Y ganran gyffredinol. Enillir y canrannau lleiaf ar gyfer pob gradd seren drwy sgôr sydd rhwng 1 a 5.

Gradd	% Gyffredinol
• 1 Seren	34% o leiaf
• 2 Seren	48% o leiaf
• 3 Seren	60% o leiaf
• 4 Seren	75% o leiaf
• 5 Seren	87% o leiaf

Glendid	% Gyffredinol
• 1 Seren	40% o leiaf
• 2 Seren	50% o leiaf
• 3 Seren	65% o leiaf
• 4 Seren	75% o leiaf
• 5 Seren	90% o leiaf

(Mae'r canllawiau ar gyfer sgorau ansawdd rhwng 1 a 5 wedi eu dyfynnu o dudalen 23).

2) Cysondeb Adrannol. Rhaid i lendid a'r mannau mewnol, y mannau byw, yr ystafelloedd gwely, yr ystafell(oedd) ymolchi a'r gegin i gyd fod ar y radd a ddymunir, h.y. os ceisir gradd 4 seren yna byddai'n ofynnol i'r holl fannau hyn fod ar radd 4 seren gyda 75% o leiaf.

3) Y gofynion o ran cyfleusterau. Mae gofynion sylfaenol a gofynion ychwanegol ar lefelau sêr uwch.

(Mae'r canllawiau ar ofynion am gyfleusterau ar gyfer pob gradd seren wedi eu dyfynnu o dudalen 9).

1 Seren	Ystafell ymolchi, basn golchi dwylo a thoiled i bob 4 gwestai. Cymhareb o 1:4 a rhannau o hynny. Os oes lle cysgu i fwy na chwech yn y fflat, rhaid cadw'r gymhareb o 1:4 h.y. dau westai'n defnyddio cyfleuster en suite a'r nifer uchaf o bedwar yn defnyddio'r ystafell ymolchi arall a rennir.
1 Seren	Darparu ffôn deialu uniongyrchol. Ffonau sy'n dangos rhif ffôn y fflat, rhif estyniad y dderbynfa a chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio unrhyw wasanaethau ychwanegol fel gwasanaethau negeseuon ffôn, galwadau rhwng fflatiau. Mae cyfarpar cyfatebol, ee ffonau symudol talu ymlaen llaw a chyfrifon Skype, yn dderbyniol.
3 Seren	Darparu peiriant golchi yn y fflat neu gyfleuster golchi dillad canolog (cymhareb o un peiriant i bob pum fflat) neu wasanaeth golchi dillad i'w dychwelyd o fewn 24 awr (ceir codi tâl am yr olaf).

Diffiniad: Mae fflatiau â gwasanaeth i'w cael yn aml mewn blociau a godwyd yn bwrpasol, sydd dan berchnogaeth neu berchnogaeth rannol y gweithredwr rhandai â gwasanaeth neu'n cael eu hyrwyddo ganddo. Byddant mewn lleoliad trefol a'r brif farchnad yw teithwyr busnes/corfforaethol er y gall twristiaeth fod yn farchnad allweddol hefyd.

Gellir eu gosod am gyfnodau byr, ond yn aml byddant ar gyfer gyfnodau hir yn bennaf. Bydd y rhandai'n cynnig llety cartref oddi cartref gyda dewis helaeth o wasanaethau fel gofalwr, gwasanaeth glanhau dyddiol os oes galw, prydau bwyd, gwasanaeth ysgrifenyddol, golchi/sychlanhau dillad yn ôl gofynion y radd seren.

Er mwyn gallu cynnig y gwasanaethau sydd yng nghynllun y rhandai â gwasanaeth, mae'n annhebygol, fel arfer, y bydd gan y gweithredwyr neu asiantau lai na chwe fflat â gwasanaeth.

DS Dylai Llesddeiliaid gael caniatâd y Rhydd-ddeiliad bob amser cyn defnyddio'r eiddo fel Fflat â Gwasanaeth.

Os nad oes modd i'ch eiddo fodloni'r gofynion hyn edrychwch ar ein harweiniad ar gyfer llety hunanddarpar, Arweiniad i Gynllun Gradd Sêr Croeso Cymru ar gyfer Llety Hunanddarpar, a allai fod yn fwy addas i'r math o wasanaeth yr ydych yn ei redeg. Gwelwch y MANYLION CYSWLLT (tudalen 55) yng nghefn y llyfr i gael gwybod sut i gael copi.

EITHRIADAU

Mae Croeso Cymru yn ymwybodol nad oes modd i rai mathau o adeiladau fodloni'r holl ofynion am gyfleusterau oherwydd eu maint neu am eu bod wedi eu "rhestru". O dan amgylchiadau o'r fath, caniateir rhywfaint o hyblygrwydd, **ar yr amod y darperir ansawdd y radd Sêr a geisir a bod yr holl gymwysyddion adrannol wedi eu bodloni**. Caniateir yr holl eithriadau ar yr amod na cheir cwynion gan ddefnyddwyr. Bydd yr Asesydd Ansawdd yn falch o'ch cynghori.

DATGANIAD HYGYRCHEDD

Beth yw Datganiad Hygyrchedd? Mae'n grynodeb clir, cywir a didwyll o'r gwasanaethau a chyfleusterau y gall pobl anabl eu disgwyl YN AWR, gan roi cyfle iddynt allu dewis y lleoliad sydd fwyaf addas ar gyfer eu ffyrdd o fyw.

SYLWER: Fel amod o gael gradd gan Croeso Cymru, rhaid i bob busnes lunio datganiad hygyrchedd a disgrifio lefelau hygyrchedd ledled y lleoliad. Dylid ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau sy'n cael eu gwneud dros amser, a dylai fod ar gael i ddarpar westeion. Mae'n syniad da i sicrhau bod y Datganiad Hygyrchedd ar gael ar-lein. I gael cyngor ar sut i ysgrifennu Datganiad Hygyrchedd, ewch i:

http://newydd.cymru.gov.uk/topics/tourism/grading/access/?lang=cy

ARFER DA O RAN HYGYRCHEDD – CYFLWYNIAD

Er bod y Datganiad Hygyrchedd yn disgrifio beth sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn ymwybodol bod Deddf Gwahaniaethu Ar Sail Anabledd 1995 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr llety i, "lle bo hynny'n rhesymol", ddileu rhwystrau a gwella hygyrchedd ar gyfer ymwelwyr. Rydym wedi cynnwys canllawiau i'ch helpu i fodloni'r amcan hwn yn llawer o'r adrannau ar yr agwedd sicrhau ansawdd ar yr asesiad. Bydd rhai awgrymiadau yn fwy perthnasol i rai nac i eraill, ond rydym yn hyderus y byddwch yn ystyried bod rhai ohonynt yn bosibl eu cyflawni, beth bynnag yw maint eich busnes. Y gobaith yw y bydd ein hawgrymiadau yn cynnig canllawiau ymarferol ichi gynnig gwasanaeth sy'n fwy cynhwysol, ond cofiwch nad ydy'r awgrymiadau hynny yn hollgynhwysol.

Bydd y canllawiau arfer da yn cael eu rhoi yn adran canllawiau ansawdd y llyfr hwn, yn y rhan fwyaf priodol o'r adran y mae'n berthnasol iddi.

ARFER DA O RAN CYNALIADWYEDD – CYFLWYNIAD

Mae amddiffyn a chadw ein planed rhag effeithiau dinistriol ar yr amgylchedd naturiol o'n ffordd fodern o fyw, yn destun pryder i nifer gynyddol o bobl. Hoffem eich gwahodd i ystyried (os nad ydych eisoes yn gwneud hynny) sut y gallech wneud newidiadau bach i'r ffordd yr ydych yn rhedeg eich busnes, er mwyn ichi allu dangos i ymwelwyr eich bod yn mabwysiadu dull cynaliadwy o reoli materion gwyrdd. Gallai dull o'r fath helpu i wella profiad eich gwesteion sy'n talu am wasanaeth, yn ogystal â helpu'r economi leol lle'r ydych yn cynnal gwasanaeth. Gall wneud synnwyr o ran busnes, gan leihau eich costau a chynyddu eich elw.

Fel gyda'r cyngor ar hygyrchedd, nid yw'r cyngor hwn yn hollgynhwysol ac os hoffech gael mwy o gyngor am y mater hwn, cysylltwch â gwasanaeth cynghori busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru gan ddefnyddio'r ffurflen gais yn

http://www.cymorth-busnes-cymru.gov.uk/contact_us/contact_form.aspx

neu ffonio 03000 6 03000

Pan fydd cyngor fel hwn yn cael ei gynnig, bydd yn dilyn y cyngor ar arfer da o ran hygyrchedd yn yr adran briodol.

Dyfodol y cyngor hwn

Er na fydd y cyngor ar hygyrchedd a chynaliadwyedd yn y llyfr hwn yn dylanwadu ar y radd ansawdd Sêr a roddwyd i'ch busnes ar hyn o bryd, gallai'r sefyllfa newid yn y dyfodol. Cynhelir ymgynghoriad gyda'r diwydiant cyn gwneud unrhyw newid o'r fath.

Isafswm y Gofynion Mynediad

Er mwyn cael ei gydnabod gan y cynllun graddio Fflatiau â Gwasanaeth, rhaid i'r gweithredwr fodloni isafswm y gofynion mynediad sydd wedi eu rhestru. Mae'r rhain yn cyfateb i radd 1 Seren.

Er mwyn cael gradd ansawdd uwch, bydd angen cwrdd â lefel yr ansawdd a'r cyflwr a bennir yn y dangosyddion ansawdd ar gyfer y Lefel Seren honno, ac unrhyw ofynion ychwanegol sydd wedi eu pennu. Er enghraifft, er mwyn cael gradd Tair Seren, dylid bodloni holl isafswm y gofynion mynediad ar gyfer Un Seren a Dwy Seren ynghyd ag unrhyw ofynion ychwanegol ar gyfer gradd Tair Seren.

1. Gofynion Cyffredinol

Isafswm y Gofynion Mynediad	
Rhwymedigaethau Statudol	• **Diogelwch** Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith Diogelwch Tân, Nwy a Thrydan Profion Offer Trydanol Diogelwch Cynhyrchion Rheoliadau Gwelyau Bync Safonau Prydeinig sy'n gymwys i eitemau fel cotiau, cadeiriau uchel a chorlannau chwarae • **Adeiladau** Caniatâd Cynllunio Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Tai Trwyddedu Teledu • **Gwahaniaethu** Gwahaniaethu ar sail Rhyw Gwahaniaethu ar sail Hil Gwahaniaethu ar sail Anabledd Gwahaniaethu ar sail Oed • **Cofnodion** Diogelu Data Mewnfudo (Cofnodion Gwestai) Diogelu'r defnyddiwr • **Disgrifiadau Masnach** Hysbysebu Prisio Telerau annheg mewn contractau Gofynnir i weithredwyr roi tystiolaeth bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei gadw a rhoi cadarnhad wedi ei lofnodi wrth wneud cais, ac wrth adnewyddu cyfranogiad, fod y gofynion uchod yn cael eu cyflawni.

Isafswm y Gofynion Mynediad	
Cyffredinol	• Wrth asesu a yw arwynebedd y llawr 'caeëdig' sydd ar gael yn dderbyniol, bydd aseswyr yn ystyried y lle defnyddiadwy o gwmpas dodrefn a ffitiadau. Mae'n annhebygol y bydd isafswm y gofynion wedi ei fodloni os yw'r llety'n llai na'r canlynol: 18.60 m sgwâr (200 tr sgwâr) ar gyfer rhandy i 2 berson ynghyd â 7.40 m sgwâr (80 tr sgwâr) ar gyfer pob person ychwanegol a letyir fel arfer. Mae'r arwynebedd llawr caeëdig yn cynnwys mannau byw, cysgu a choginio ac ystafelloedd ymolchi. • Dylid ystyried y gallu i symud o gwmpas yn rhwydd, a dylai'r nenfwd yn y rhan fwyaf o'r ystafell fod yn ddigon uchel i berson o daldra o 183 cm (6') symud o gwmpas heb blygu. Mae bargodion a thoeau ar oleddf yn dderbyniol ar yr amod nad ydynt yn cyfyngu'n annerbyniol ar symudiadau gwesteion. • Yn ogystal â hynny, ar gyfer gradd Sêr sy'n uwch na'r lefel sylfaen o Un Seren, bydd angen i'r arwynebedd llawr sydd ar gael fod yn fwy gyda mwy o lawer o le defnyddiadwy o gwmpas dodrefn a ffitiadau. • Rhaid cael lle rhesymol i symud o gwmpas mewn ystafelloedd gwely/ystafelloedd cysgu a byw er mwyn cael mynediad rhwydd at welyau, drysau a droriau. • Bydd modd agor drysau a droriau i'r pen. Dylid hefyd ystyried yr angen am le i ddodrefn newidiadwy, e.e. soffas cysgu etc. • Bydd yr holl osodion, dodrefn, deunyddiau, llestri a chytleri yn ddigonol ar gyfer nifer uchaf y meddianwyr, gan gynnwys unrhyw lety cysgu ychwanegol.
Hunangynhwysol	Rhaid i'r holl randai fod yn gwbl hunangynhwysol* * Beth yw ystyr Hunangynhwysol? *Mae fflat hunangynhwysol yn un y mae ei ystafell(oedd) gwely, ystafell(oedd) ymolchi, mannau cyffredin a chegin y tu ôl i un prif ddrws, sy'n rhoi mynediad i'r meddianwyr yn unig.*

2. Cynnal a Chadw

Isafswm y Gofynion Mynediad	
Cynnal a Chadw	• Rhaid i'r holl offer sy'n gweithio ar drydan, nwy neu olew fod yn rhai sy'n cyflawni'r holl rwymedigaethau statudol (gweler y dudalen flaenorol), cael eu cynnal a'u cadw'n ddiogel, bod mewn cyflwr da a chael eu trin yn rheolaidd a/neu eu rhoi dan brofion cyfarpar cludadwy. • Rhaid i'r holl osodion, deunyddiau, gorchuddion llawr a ffitiadau hefyd gyflawni'r holl rwymedigaethau statudol perthnasol, yn enwedig mewn cysylltiad â diogelwch tân (gweler y gofynion cyffredinol). Rhaid cadw'r rhain fel eu bod mewn cyflwr da a glân ac yn addas i'w diben. • Dylai'r tu allan fod yn rhydd oddi wrth beryglon ar ffyrdd a llwybrau a rhai ar yr adeilad ei hun.

3. Iechyd, Diogelwch Eiddo a Diogelwch Personol

Isafswm y Gofynion Mynediad	
Iechyd, Diogelwch Eiddo a Diogelwch Personol	• Cynnal lefel uchel o ddiogelwch eiddo a diogelwch personol yn gyffredinol, gan gynnwys gwybodaeth am weithdrefnau i'w dilyn os bydd argyfwng. • Os nad yw'r perchennog neu'r cynrychiolydd penodedig yn preswylio yn y fangre, rhaid dangos ei enw, cyfeiriad a rhif ffôn neu rai ei asiant, y mae'n rhaid iddo fod â set o allweddi, mewn lle amlwg, ynghyd â manylion clir ynghylch sut i alw am gymorth os bydd argyfwng. • Rhaid dangos mewn lle amlwg fanylion printiedig ynghylch sut i alw am gymorth gwasanaethau brys e.e. meddyg, deintydd ac uned ddamweiniau a milfeddyg (os derbynnir anifeiliaid anwes) neu rhaid darparu gwasanaeth gofalwr 24 awr. • Rhaid darparu trefniadau gwaredu sbwriel addas ar gyfer pob fflat. Os darperir biniau sbwriel, rhaid iddynt fod â chaead. Rhaid pennu trefniadau ar gyfer casglu sbwriel a'u dangos mewn lle amlwg. • Darperir allwedd i ddrws mynedfa eu fflat i breswylwyr ac, os yw'n berthnasol, allwedd sy'n rhoi mynediad i'r adeilad ac at unrhyw gyfleusterau perthnasol eraill. • Rhaid darparu o leiaf un larwm mwg yn yr holl fflatiau, mewn man priodol yn y cyntedd neu wrth ben y grisiau. Efallai y bydd angen mwy nag un larwm mewn rhandai mwy neu'r rheini sydd â chynllun mwy anarferol. (Gellir gofyn am gyngor gan swyddog atal tân lleol.) • Rhaid i'r busnes fod ag offer diffodd tân a rhybuddion yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, sy'n mynnu y bydd y perchennog/person cyfrifol yn cynnal asesiad risgiau tân ar bob adeilad/busnes gan gymryd camau wedyn fel y bo'n briodol i ddileu a lleihau'r risgiau. • Dylid darparu lefelau goleuo digonol yn y nos er mwyn diogelwch a chysur yn yr holl fannau cyffredin, gan gynnwys grisiau a phennau grisiau ac mewn meysydd parcio ac ar lwybrau/grisiau at yr adeilad. • Dylai'r holl brif wasanaethau fod ar gael. • Rhaid darparu nifer digonol o socedi trydan, i gyd-fynd â nifer yr offer trydanol sydd wedi eu darparu. • Rhaid i ryw fath o oleuadau argyfwng fod ar gael, e.e. fflachlamp neu oleuadau argyfwng. Nid yw canhwyllau'n dderbyniol am resymau sy'n ymwneud â diogelwch tân. • Rhaid i becyn cymorth cyntaf patent fod ar gael yn rhwydd yn y llety.

4. Y tu allan

Isafswm y Gofynion Mynediad	
Golwg Adeiladau	• Cadw'r adeiladau mewn cyflwr da a glân.
Tiroedd a Gerddi	• Cadw gerddi a/neu fannau agored sy'n rhan o'r uned fel eu bod mewn cyflwr da. • Os oes mannau atodol i'r adeilad, ystyrir y cyfleusterau sydd wedi eu darparu wrth asesu'r breswylfa, os ydynt o dan reolaeth y gweithredwr. Dylent fod â wyneb da, bod mewn cyflwr da a bod wedi eu goleuo'n ddigonol.

5. Glendid

Isafswm y Gofynion Mynediad	
Glendid	• Mae glendid yn hollbwysig i westeion, felly rhaid cyrraedd a chynnal safon uchel o lendid ym mhob rhan o'r eiddo. Rhaid rhoi sylw'n benodol i geginau, ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd cawod a thoiledau ac eitemau y bydd gwesteion yn dod i gysylltiad uniongyrchol â hwy, fel dillad gwlâu, llieiniau, tyweli, baddonau, cawodydd, basnau ymolchi, toiledau, lloriau, cadeiriau, llestri, cytleri, gwydrau, offer a chyfarpar cegin. • Cyfrifoldeb y gweithredwr yw sicrhau bod pob adeilad wedi ei lanhau'n drwyadl ym mhob man cyn ei osod o'r newydd, pa un a yw'r gwesteion wedi ei lanhau cyn ymadael neu beidio. Dylid rhoi eitemau yn lle unrhyw rai sydd wedi eu torri neu eu difrodi. • Gwasanaeth glanhau wythnosol o leiaf. • Rhaid i wasanaeth glanhau dyddiol fod ar gael, y ceir codi tâl amdano.
Gofynion Ychwanegol	
5 Seren	• Gwasanaeth glanhau dyddiol ar o leiaf 5 niwrnod ym mhob 7 wedi ei gynnwys yn y pris gosod.

6. Rheoli Effeithlon

Isafswm y Gofynion Mynediad	
Archebu a Phrisiau Yn gymwysadwy i daflenni gwybodaeth a gwefannau	• Egluro i westeion beth yn union sydd wedi ei gynnwys yn y prisiau a osodir am yr eiddo gan gynnwys tâl gwasanaeth, trethi a thaliadau ychwanegol, e.e. trydan, tanwydd, dillad gwlâu, tyweli, cotiau etc. • Rhaid peidio â chodi pris sy'n uwch na'r un y cytunwyd arno ar adeg archebu'r llety. • Rhaid i'r prisiau a gytunir gynnwys taliadau gwasanaeth a thaliadau ychwanegol eraill. • Ar bob lefel bydd gwesteion yn cael eu cyfarch a'u cydnabod yn gyfeillgar, yn effeithlon ac yn gwrtais drwy gydol eu harhosiad. Dylid cael gwasanaeth archebu effeithlon a hawdd ei ddefnyddio sy'n cynnwys y canlynol: • Dweud yn glir wrth ddarpar ymwelwyr beth sydd wedi ei gynnwys yn y prisiau a osodwyd ar gyfer llety, prydau bwyd a lluniaeth, gan gynnwys tâl gwasanaeth a thaliadau ychwanegol eraill. • Darparu gwybodaeth arall a allai effeithio ar arhosiad y gwesteion, e.e. polisi ysmygu, gwaith adnewyddu sy'n mynd ymlaen, achlysuron/digwyddiadau arfaethedig etc. Os yw polisi'r tŷ yn mynnu bod angen archebu cyfleusterau penodol ymlaen llaw, e.e. triniaethau sba, cinio etc., dylid sôn am y rhain hefyd ar adeg archebu. • Holl fanylion y polisi canslo, os oes un. Mae hyn yn cynnwys yn benodol wybodaeth am godi tâl ar gardiau credyd am ganslo neu newidiadau yn yr archeb. • Gwybodaeth am flaendaliadau os oes angen, gan gynnwys manylion ynghylch sut y cymerir y blaendal ac a oes modd ei ad-dalu neu beidio os caiff archeb ei chanslo. • Eglurhad clir o ffioedd am wasanaethau ychwanegol neu gyfleusterau sydd ar gael gan gynnwys telerau canslo. • Gwybodaeth am unrhyw fathau o dâl sy'n annerbyniol e.e. cardiau credyd, sieciau teithio etc. • Gwybodaeth a'r holl fanylion am unrhyw ffioedd a godir am dderbyn cardiau credyd.

6. Rheoli Effeithlon (parhad)

Isafswm y Gofynion Mynediad	
	• Darparu holl fanylion y llety, gan gynnwys trefniadau cysgu a'r ystafell ymolchi (a oes bath neu gawod ynddi) mewn ysgrifen neu brint cyn yr adeg archebu arferol. Os darperir lleoedd cysgu ar ffurf soffas cysgu, gwelyau wal, gwelyau 'Z', gwelyau gwersylla etc., yn ogystal â lleoedd mewn ystafelloedd gwely, mae angen nodi'n glir beth yw math, maint a nifer y lleoedd cysgu. • Os gellir archebu llety yn bersonol, dylai'r gweithredwr ddangos ei brisiau/tariff ar gyfer pob math a maint o fflat. Gallai'r rhain fod yn brisiau "fesul gwestai" neu "fesul fflat". • Rhaid i lawlyfr neu daflen wybodaeth brintiedig (neu deipiedig) fod ar gael. Mae'n ddymunol cael cynllun llawr. Rhoi gwybod am drefniadau ar gyfer cael mynediad i'r eiddo cyn i westeion gyrraedd. • Bod y wybodaeth ganlynol ar gael yn rhwydd cyn archebu: Trefniadau ar gyfer parcio ceir ger y fflat A dderbynnir anifeiliaid anwes neu beidio ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig Y pellter rhwng y fflat a'r siop(au) etc. agosaf Y pellter rhwng y fflat a'r drafnidiaeth gyhoeddus agosaf Mathau o gyflenwad pŵer os nad yw'n drydan Foltedd trydan, os nad yw'n safonol Map a/neu gyfarwyddiadau sy'n dangos lleoliad y fflat wrth archebu neu gyda'r daflen wybodaeth. (Gellir rhoi cyfarwyddiadau manylach ar ôl archebu). Stocrestr os gofynnir am un.
Ymadael	• Rhoi manylion y taliadau sy'n ddyledus i ymwelwyr a derbynneb os gofynnir am un. Bydd y dderbynneb yn glir ac yn drefnus.
Gwybodaeth ar gyfer gwesteion ac ymwelwyr	• Bydd gwybodaeth i ymwelwyr ar gael. • Gweler hefyd yr adran ar Iechyd, Diogelwch Eiddo a Diogelwch Personol.
Gofynion ychwanegol	
	Cyrraedd - Cyffredinol.
3 Seren	• Darparu cynhwysion i wneud diodydd poeth sy'n ddigon ar gyfer un noson o leiaf.
3 Seren	Dylid darparu dwy eitem ychwanegol o'r rhestr ganlynol: • Taflwr sychu • Wi-fi neu gysylltiad â'r rhyngrwyd yn y fflat • System hei-ffei/stereo • Recordydd fideo/recordydd DVD
4 Seren	Darparu cynhwysion brecwast (ar gyfer brecwast cyfandirol o leiaf) ar gyfer un noson (ceir codi tâl).
5 Seren	Derbynfa â gofalwr/aelod staff dros 24 awr Darparu ffôn deialu uniongyrchol ym mhob fflat.

7. Mannau Cyffredin Mewnol

Isafswm y Gofynion Mynediad

Cyffredinol	Digon o le yn yr holl fannau i ganiatáu i westeion symud yn rhwydd o gwmpas yr holl ddodrefn a ffitiadau. • Darparu seddau ar ffurf cadeiriau esmwyth a/neu soffas, sy'n ddigonol at yr holl ddibenion. • Dangos rhybuddion dim ysmygu'n glir.
Lifftiau	• Mae lifft yn ofynnol os oes rhandy sy'n dri llawr neu fwy yn uwch neu'n is na llawr y brif fynedfa. • Gellir caniatáu eithriad ar yr holl raddau seren mewn adeiladau hŷn a/neu adeiladau sydd wedi eu rhestru oherwydd nodweddion pensaernïol os gellir dangos bod gosod lifft yn anymarferol neu wedi ei wahardd.

Gofynion Ychwanegol

3 Seren	• Mae lifft yn ofynnol os oes fflat sy'n ddau lawr neu fwy yn uwch neu'n is na llawr y brif fynedfa.
4 Seren	• Mae lifft yn ofynnol os oes fflat sy'n un llawr neu fwy yn uwch neu'n is na llawr y brif fynedfa.
5 Seren	• Disgwylir y bydd lifft wedi ei ddarparu ar gyfer yr holl loriau yn y prif adeilad.

Isafswm y Gofynion Mynediad

Addurn a Lloriau	• Rhaid cael addurniadau a gorffeniadau neu orchuddion llawr addas yn yr holl yr holl yr holl ystafelloedd/mannau, coridorau a grisiau.
Dodrefn, Deunyddiau a Ffitiadau	• Bod yr holl ddodrefn, lloriau a ffitiadau'n addas i arddull y rhandai a'r defnydd ohonynt a'u bod wedi eu cadw mewn cyflwr da.
Gwresogi, Goleuo ac Awyru	• Rhaid i ddull gwresogi digonol fod ar gael bob amser. • Rhaid i'r holl fannau byw fod wedi eu goleuo'n ddigonol a rhaid bod gorchuddion ar oleuadau (oni bai fod bylbiau'n addurnol e.e. math cannwyll). Y lefelau goleuo isaf sy'n dderbyniol ar gyfer mannau byw yw 140 wat (gyda'i gilydd) neu'r hyn sy'n cyfateb ar watedd isel. Disgwylir watedd uwch a mwy o amrywiaeth o oleuadau mewn ystafelloedd/mannau mwy er mwyn diogelwch a hwylustod. **Tabl trawsnewid ar gyfer bylbiau golau arbed ynni**

Bylb Golau Cyffredin	Bylb golau arbed ynni cyfatebol
100 Wat	20 – 23 Wat
75 Wat	15 – 18 Wat
60 Wat	11 – 13 Wat
40 Wat	9 Wat

• Mae'r holl fannau cyffredin i'w hawyru'n ddigonol fel na fydd unrhyw arogleuon amlwg yn aros ar ôl coginio neu arogleuon eraill.

8. Mannau Byw a Bwyta

Isafswm y Gofynion Mynediad	
Cyffredinol	• Digon o le yn yr holl ystafelloedd gwely i ganiatáu i westeion symud yn rhwydd o gwmpas yr holl ddodrefn a ffitiadau gan gynnwys soffas cysgu. Caiff ystafelloedd fod yn fach ond drwy gynllunio gofalus gwneir y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael. • Mae'r nenfwd yn ddigon uchel yn y rhan fwyaf o'r ystafell i rywun 6 throedfedd o daldra symud o gwmpas heb blygu. Mae bargodion a thoeau ar oleddf yn dderbyniol ar yr amod nad ydynt yn effeithio ar y rhan fwyaf o'r ystafell. • Pan fyddwn yn asesu a yw ystafell yn dderbyniol o ran maint, byddwn yn ystyried y lle defnyddiadwy sydd o gwmpas dodrefn a ffitiadau, gan gynnwys soffas cysgu. Ni ddylid cael dim sy'n cyfyngu ar y gallu i symud o gwmpas yn rhwydd. • Bwrdd bwyd a lleoedd eistedd ar gyfer y nifer mwyaf o feddianwyr. • Os oes lle tân agored y gellir ei ddefnyddio, darperir gard tân, procer, brws, gefel a rhaw i'r aelwyd, cynhwysydd tanwydd a bwced lludw. • Darparu seddau ar ffurf cadeiriau esmwyth a/neu soffas, sy'n ddigonol ar gyfer nifer uchaf y meddianwyr a hysbysebwyd. Darperir yr holl seddau esmwyth yn y brif lolfa/lolfeydd. • Darparu set deledu digidol lliw os oes signal digidol teledu, heb godi tâl ychwanegol. • Darparu ffôn deialu uniongyrchol neu rywbeth cyfatebol e.e. ffonau symudol talu ymlaen llaw. Bydd y ffonau'n dangos rhif ffôn y rhandy, rhif estyniad y dderbynfa a chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio unrhyw wasanaethau ychwanegol fel gwasanaethau neges ffôn, galwadau rhwng rhandai. • Bydd gwybodaeth ar gael ym mhob fflat am gyfraddau ffôn sy'n dangos taliadau nodweddiadol am alwadau lleol, pell, rhyngwladol, y rhyngrwyd a chysylltiadau â ffonau symudol. Disgwylir i weithredwyr rhandai ddarparu'r wybodaeth ganlynol, o leiaf, i westeion: • Cost un alwad leol 5 munud ar y gyfradd oriau brig. • Cost un alwad leol 5 munud ar y gyfradd oriau allfrig. • Cost un alwad bell 5 munud ar y gyfradd oriau brig. • Cost un alwad bell 5 munud ar y gyfradd oriau allfrig. • Cost un alwad ryngwladol 5 munud ar gyfraddau oriau brig, e.e. UDA. • Cost un alwad ryngwladol 5 munud ar y gyfradd oriau allfrig, e.e. UDA. Yn ogystal â hynny, dylid rhoi eglurhad o beth yw galwad leol a galwad bell ac esboniad clir o gyfraddau oriau brig ac allfrig. • Darparu biniau papur gwastraff anfflamadwy yn y mannau byw.
Lloriau	• Rhaid cael gorffeniadau neu orchuddion addas yn yr holl ystafelloedd/mannau, coridorau a grisiau.
Dodrefn, Deunyddiau a Ffitiadau	• Gosod llenni tywyll, bleindiau neu gaeadau ar yr holl ffenestri allanol mewn mannau byw. Bydd hefyd yn ofynnol gorchuddio gwydr mewn drysau allanol/mewnol os defnyddir y lolfa i gysgu neu os gallai diffyg preifatrwydd fod yn ystyriaeth. (Ni fydd angen gosod llenni ar ben uchaf ffenestri ffrâm 'A' a ffenestri to oni bai fod y lolfa'n cael ei defnyddio fel lle cysgu). • Os oes lleoedd cysgu mewn mannau byw, rhaid cael lleoedd storio digonol ar gyfer dillad gwlâu a dillad gwesteion.

Isafswm y Gofynion Mynediad	
Gwresogi, Goleuo ac Awyru	• Rhaid i ddull gwresogi digonol fod ar gael bob amser a fydd yn golygu darparu gwresogi mewn mannau byw. Bydd gwresogi ychwanegol ar gael os gofynnir amdano. • Bydd o leiaf un ffenestr yn yr holl ystafelloedd byw sy'n agor yn uniongyrchol i'r awyr agored. Darperir aerdymheru os na ellir agor ffenestri. • Rhaid i'r holl fannau byw fod wedi eu goleuo'n ddigonol a rhaid bod gorchuddion ar oleuadau (oni bai fod bylbiau'n addurnol e.e. math cannwyll). Y lefelau goleuo isaf sy'n dderbyniol ar gyfer mannau byw yw 140 wat (gyda'i gilydd) neu'r hyn sy'n cyfateb ar watedd isel. Disgwylir watedd uwch a mwy o amrywiaeth o oleuadau mewn ystafelloedd mwy. **Tabl trawsnewid ar gyfer bylbiau golau arbed ynni** **Bylb Golau Cyffredin** / **Bylb golau arbed ynni cyfatebol** 100 Wat / 20 – 23 Wat 75 Wat / 15 – 18 Wat 60 Wat / 11 – 13 Wat 40 Wat / 9 Wat

9. Ystafelloedd Gwely

Isafswm y Gofynion Mynediad	
Cyffredinol	• Digon o le yn yr holl ystafelloedd gwely i ganiatáu i westeion symud yn rhwydd o gwmpas yr holl ddodrefn a ffitiadau gan gynnwys soffas cysgu. Caiff ystafelloedd fod yn fach ond drwy gynllunio gofalus gwneir y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael. • Mae'r nenfwd yn ddigon uchel yn y rhan fwyaf o'r ystafell i rywun 6 throedfedd o daldra symud o gwmpas heb blygu. Mae bargodion a thoeau ar oleddf yn dderbyniol ar yr amod nad ydynt yn effeithio ar y rhan fwyaf o'r ystafell. • Pan fyddwn yn asesu a yw ystafell wely'n dderbyniol o ran maint, byddwn yn ystyried y lle defnyddiadwy sydd o gwmpas dodrefn a ffitiadau, gan gynnwys soffas cysgu. Ni ddylid cael dim sy'n cyfyngu ar y gallu i symud o gwmpas yn rhwydd. • Dylai ystafelloedd i deuluoedd fod yn fwy helaeth. • Bydd modd agor drysau a droriau i'r pen heb orfod symud dodrefn.
Lloriau	• Rhaid cael gorffeniadau neu orchuddion addas ar loriau'r holl ystafelloedd.
Dodrefn, Deunyddiau a Ffitiadau	• Bwrdd/silff a golau wrth ochr y gwely ar gyfer pob meddiannydd, gan gynnwys gwelyau bync (caiff pâr o welyau rannu bwrdd a golau a dylid darparu golau ar gyfer y gwely bync uchaf ond nid silff uchaf oni bai ei fod yn ddiogel gwneud hynny). • Darparu biniau gwastraff anfflamadwy. • Darparu bwrdd gwisgo (neu ddodrefnyn cyfatebol) gyda drych, wardrob neu reilen i hongian dillad a digon o le mewn droriau ym mhob rhandy (mae lle ar silffoedd yn dderbyniol yn lle droriau), mewn o leiaf un ystafell i wely dwbl neu bâr o welyau. Nid yw bachau ar gefn drysau etc. yn dderbyniol: dylai dillad gael hongian yn rhydd. • Chwe phren hongian dillad y person. Nid yw rhai gwifren yn dderbyniol.

9. Ystafelloedd Gwely (parhad)

Isafswm y Gofynion Mynediad	
Gwelyau a Dillad Gwlâu	• Bydd y meintiau gwely lleiaf, gan gynnwys soffas cysgu a gwelyau bync, fel a ganlyn: Sengl: 190cm x 90cm / 6' 3" x 3' Dwbl: 190cm x 137cm / 6' 3" x 4' 6" Dynodir gwelyau 122cm / 4' yn welyau sengl • Mae gwelyau 76cm /2' 6" yn annerbyniol, ac eithrio mewn ystafelloedd i deulu lle dynodwyd yn glir eu bod ar gyfer plant yn unig. • Nid yw soffas cysgu'n dderbyniol fel lleoedd gwely parhaol. • Mae gwelyau bync (lleoedd gwely parhaol) yn dderbyniol fel lle cysgu i blant yn unig. Os defnyddir gwelyau bync, rhoddir gwybod am hynny i westeion pan fyddant yn archebu. • Mynediad at ddwy ochr y gwely os yw dau'n rhannu ystafell. • O leiaf un ystafell i oedolion heb welyau bync. • Yr holl fatresi'n rhai sbring neu o ddeunydd mandyllog neu o ansawdd tebyg ac mewn cyflwr da a glân. Rhaid i'r dillad gwlâu fod yn lân ac yn sych. • Cyflenwi digon o ddillad gwlâu h.y. gorchudd gwely a dwy flanced i bob gwely neu un garthen blu â gradd tog addas (o leiaf 10 tog), a dwy glustog i bob person. Ar gyfer gosod yn y gaeaf neu ar ddechrau neu ddiwedd y tymor, dylid darparu mwy o ddillad gwlâu. Bydd y dillad gwlâu'n lân ac yn sych. • Gosod gorchudd matres neu flanced isaf ar yr holl welyau. (Nid yw gorchuddion matresi plastig neu rwber yn dderbyniol i'w defnyddio fel arfer. Os darperir gorchudd rwber ar gyfer plant, dylai fod yn ddewis ychwanegol gyda'r gorchudd matres arferol.) Yr holl welyau i'w gwneud yn barod ar gyfer dyfodiad y gwesteion. • Darparu cynfasau a'u newid ar gyfer yr holl feddianwyr newydd a chynnig eu newid bob wythnos yn ystod y cyfnod gosod. Bydd cynfasau a dillad gwlâu sbâr ar gael os gofynnir amdanynt. Rhaid i'r cynfasau fod o boly-gotwm neu gotwm. • Os ceir mynediad i ystafell wely drwy ystafell wely arall, rhaid dangos hyn yn glir yn y daflen wybodaeth. • Os ceir mynediad i ystafell ymolchi drwy ystafell wely (heb gynnwys rhai en suite), rhaid dynodi'r rhandai hyn, a'u hysbysebu yn y daflen wybodaeth, fel rhai sy'n addas i'w meddiannu gan un teulu'n unig.
Gofynion Ychwanegol	
4 Seren	• Bydd yr holl leoedd cysgu a hysbysebir mewn ystafelloedd gwely'n unig. (Os yw fflatiau stiwdio wedi eu hysbysebu'n glir fel y cyfryw, caniateir eithriad i hyn).
5 Seren	• Bydd yr holl welyau o faint mawr h.y. gwelyau dwbl yn 5' a'r holl welyau sengl yn 3' gan gynnwys gwelyau i blant (nid yw'n cynnwys gwelyau 'Z' a ddefnyddir dros dro i blant yn unig). Darparu set deledu digidol yn y brif ystafell wely. (Mae'n annhebygol y byddai rhandy lle ceir mynediad i ystafell wely neu ystafell ymolchi drwy ystafell wely arall yn cael gradd Pum Seren).

Isafswm y Gofynion Mynediad

Ystafelloedd Gwely Oriel

- Os yw'r eiddo'n lletya dau berson yn unig, gellir cyrraedd unrhyw un o'r graddau. Rhaid hysbysebu'r ystafell wely oriel fel y cyfryw yn y daflen wybodaeth.
- Os yw'r eiddo'n lletya mwy na dau o westeion a bod ynddo ystafell wely oriel, rhaid hysbysebu hyn yn glir yn y daflen wybodaeth. Y radd uchaf y gellid ei chyrraedd yw Pedair Seren. Mae hynny oherwydd diffyg preifatrwydd, cuddio golau ac ymyrraeth sŵn.

Gwresogi, Goleuo ac Awyru

- Rhaid i ddull gwresogi fod ar gael bob amser a hynny'n golygu, yn y rhan fwyaf o achosion, ddarparu gwresogi ym mhob ystafell wely.
- Rhaid i'r holl ystafelloedd gwely fod wedi eu goleuo'n ddigonol a rhaid bod gorchuddion ar oleuadau. Y lefelau goleuo isaf sy'n dderbyniol yw 140 wat (gyda'i gilydd) neu'r hyn sy'n cyfateb ar watedd isel.

  Disgwylir watedd uwch a mwy o amrywiaeth o oleuadau mewn ystafelloedd mwy.

Tabl trawsnewid ar gyfer bylbiau golau arbed ynni

Bylb Golau Cyffredin	Bylb golau arbed ynni cyfatebol
100 Wat	20 – 23 Wat
75 Wat	15 – 18 Wat
60 Wat	11 – 13 Wat
40 Wat	9 Wat

- Bydd o leiaf un ffenestr sy'n agor yn uniongyrchol i'r awyr agored ym mhob ystafell wely; bydd llenni tywyll, bleindiau neu gaeadau ar y ffenestri. Darperir aerdymheru os nad oes modd agor ffenestri.

10. Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau

Isafswm y Gofynion Mynediad

Cyffredinol

- Bydd o leiaf un ystafell ymolchi a thoiled ym mhob rhandy i bob pedwar gwestai. Bydd yr ystafell ymolchi'n cynnwys bath neu gawod, mat bath, rheilen tyweli (nid yw pegiau a bachau'n dderbyniol), silff neu wyneb gwastad a basn ymolchi. Os nad yw gwaelod y bath neu'r gawod wedi ei wneud o ddeunydd gwrthlithro, rhaid i fat o ddeunydd gwrthlithro fod ar gael.
- Os nad oes bath yn ogystal â chawod, rhaid nodi hyn yn y daflen wybodaeth ac ar y wefan.
- Oni bai fod yr ystafell ymolchi'n un en suite, nid yw mynediad drwy ystafell wely i'r ystafell ymolchi'n dderbyniol, ac eithrio lle mae'r rhandy i'w ddefnyddio gan un teulu'n unig.
- **Beth yw ystafell ymolchi en suite?**
  Ystafell wedi ei hawyru'n briodol ac ynddi fath neu gawod, toiled a basn ymolchi, wedi ei chysylltu ag ystafell wely ac yn agor iddi'n uniongyrchol.
- Bydd y basn ymolchi yn y brif ystafell ymolchi o leiaf 36cm x 24cm (14" x 9") y tu mewn, er bod basn ymolchi o faint safonol yn cael ei argymell bob amser os oes lle iddo. (Os darperir basnau ychwanegol mewn ystafelloedd ymolchi en suite neu doiledau ar wahân, a bod y basn yn y brif ystafell ymolchi o faint sy'n cydymffurfio, gallai'r rhain fod yn llai).
- Drych uwchben y basn ymolchi neu'n agos iddo.
- Bydd o leiaf un toiled yn yr holl randai. Ym mhob toiled bydd papur toiled a chynhwysydd iddo, brws toiled a bin gwastraff gyda bagiau glanweithiol, neu fin a chaead arno

10. Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau (parhad)

Isafswm y Gofynion Mynediad	
	• Bydd llenni tywyll, bleindiau neu gaeadau ar yr holl ffenestri. (Os oes drysau gwydr i ystafelloedd ymolchi a thoiledau, rhaid gosod cyrten dywyll neu len arnynt hefyd.) • Bydd dull o ddarparu dŵr poeth ar gael. • Darparu clo neu follt ar yr holl ddrysau i ystafelloedd ymolchi/toiledau nad ydynt yn rhai en suite. • Pwynt i rasel drydan wrth ddrych, gyda golau os oes modd. Mae addasydd mewn lle arall yn y rhandy yn ddewis arall sy'n dderbyniol, ar yr amod bod modd ei ddefnyddio'n agos i ddrych. • Darparu tyweli (un tywel dwylo ac un tywel bath i bob person) heb godi tâl ychwanegol a'u newid o leiaf unwaith yr wythnos ac ar gyfer pob gwestai newydd. • Bar newydd o sebon i bob gwestai newydd (gellir defnyddio sebon hylifol yn lle hyn).
Gofynion Ychwanegol	
3 Seren	• Dylid darparu cawod os oes lle i fwy na phedwar gwestai. Rhaid iddi fod yn un sy'n gadael y dwylo'n rhydd wrth ei defnyddio, ond gellir ei gosod uwchben bath, e.e. tap cymysgu. Darparu dewis cyfyng o bethau ymolchi a phapur toiled i westeion pan fyddant yn cyrraedd.
4 Seren	• Os oes lle i gysgu i fwy na phedwar gwestai mewn fflat, rhaid cadw at y gymhareb o un ystafell ymolchi/toiled i bob pedwar o westeion 1:4. • Os oes lle i gysgu i fwy na phedwar o westeion, bydd yn ofynnol cael dwy ystafell wely gyda thoiled, basn ymolchi a bath neu gawod. Rhaid cael o leiaf un ystafell ymolchi a bath ynddi ac o leiaf un a chawod ynddi.
5 Seren	• Bydd bath a chawod ar gael yn y brif ystafell ymolchi. (Gellir caniatáu eithriadau os oes cawodydd â mynediad gwastad sydd wedi eu gwneud yn bwrpasol i'w defnyddio gan westeion sydd â phroblemau symud). Os oes mwy nag un ystafell wely, dylid cael ystafell ymolchi en suite mewn un ohonynt o leiaf. • Os oes lle i gysgu i fwy na chwech yn y fflat, rhaid cadw'r gymhareb o 1:4 h.y. bydd dau westai'n defnyddio'r ystafell ymolchi en suite a phedwar ar y mwyaf yn defnyddio'r ystafell ymolchi arall. Caiff tyweli eu newid ddwywaith yr wythnos, yn unol â pholisi amgylcheddol. Bydd dewis o bethau ymolchi ar gael i westeion pan fyddant yn cyrraedd. Rhoddir rhai ychwanegol drwy'r amser os gofynnir amdanynt. (Ceir codi tâl am hyn).
Isafswm y Gofynion Mynediad	
Lloriau	• Rhaid gosod gorchuddion addas ar loriau'r holl ystafelloedd ymolchi/toiledau. Dylid ystyried addasrwydd gorchuddion llawr o ran hylendid a gwaith cadw tŷ.

Isafswm y Gofynion Mynediad

Gwresogi, Goleuo ac Awyru

- Rhaid darparu gwresogi yn yr holl ystafelloedd ymolchi lle mae ffenestr allanol. Mae rheilen dyweli wedi'i gwresogi'n dderbyniol.
- Rhaid i'r holl ystafelloedd ymolchi/toiledau fod wedi eu goleuo'n ddigonol a rhaid bod gorchuddion ar yr holl oleuadau neu amddiffyniad addas.

Tabl trawsnewid ar gyfer bylbiau golau arbed ynni

Bylb Golau Cyffredin	Bylb golau arbed ynni cyfatebol
100 Wat	20 – 23 Wat
75 Wat	15 – 18 Wat
60 Wat	11 – 13 Wat
40 Wat	9 Wat

- Bydd ffenestr sy'n agor yn yr holl ystafelloedd ymolchi a thoiledau neu system awyru wedi ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Gofynion Ychwanegol

5 Seren

- Rheilen dyweli wedi ei gwresogi neu ryw ffordd i ddarparu tyweli sych ar gais.

11. Cegin

Isafswm y Gofynion Mynediad

Cyffredinol

- Popty gyda ffwrn, ac ynddi o leiaf ddwy silff, gril ac o leiaf bedwar cylch berwi y gellir eu defnyddio yr un pryd â'r ffwrn neu'r gril. Os mai dim ond dau berson a letyir, rhaid darparu dau gylch berwi ynghyd â ffwrn a gril. Os lletyir nifer mwy, h.y. chwech neu ragor, disgwylir y bydd cyfleusterau coginio ychwanegol wedi eu darparu. Mae ffwrn microdon yn ddewis arall sy'n dderbyniol yn lle un cylch berwi. Mae ffwrn microdon sydd ar y cyd â ffwrn a gril yn dderbyniol fel gril neu ffwrn, ar yr amod bod hob â thri chylch ar gael hefyd ar wahân.
- Bydd poptai mewn cyflwr da a glân ac yn gweithio'n iawn.
- Darparu ffwrn microdon, ac offer coginio microdon neu lestri cyfaddas.
- Oergell gyda blwch sy'n gwneud rhew (oni bai fod rhewgell wedi ei darparu hefyd). Nid yw oergelloedd heb flwch rhew yn dderbyniol os na ddarperir rhewgell.
- Darparu sinc gyda bwrdd diferu, rhesel sychu llestri, cyflenwad o ddŵr poeth a dŵr oer.
- O leiaf un wyneb gweithio hylan.
- Ffenestr sy'n agor neu system awyru wedi ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Llenni tywyll, caeadau neu fleindiau ar ddrysau gwydr a ffenestri allanol.
- Darparu bin gwastraff â chaead, gyda bag leinio.
- Rhaid i'r busnes fod ag offer diffodd tân a rhybuddion yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, sy'n mynnu y bydd y perchennog/person cyfrifol yn cynnal asesiad risgiau tân ar bob adeilad/busnes gan gymryd camau wedyn fel y bo'n briodol i ddileu a lleihau'r risgiau.

11. Cegin (parhad)

Isafswm y Gofynion Mynediad	
	• Lle sy'n addas i storio bwyd. • Os yw peiriant golchi llestri wedi ei ddarparu, dylai'r llestri, y cytleri a'r offer cegin fod yn rhai y mae'n ddiogel eu rhoi mewn peiriant golchi llestri. Dylid darparu llestri ychwanegol hefyd, fel nad oes rhaid defnyddio'r peiriant golchi llestri ar ôl pob pryd bwyd ar gyfer niferoedd llai o westeion. • Darparu digon o le i storio llestri, cytleri ac offer cegin a glanhau.
Gofynion Ychwanegol	
3 Seren	• Darparu peiriant golchi yn y rhandy neu gyfleuster golchi dillad canolog (cymhareb o un peiriant i bob pum rhandy) neu wasanaeth golchi dillad i'w dychwelyd o fewn 24 awr (ceir codi tâl am yr olaf).
4 Seren	• Darparu peiriant golchi yn y fflat. Gwasanaethau golchi dillad a sychlanhau sydd ar gael os gwneir cais (ceir codi tâl amdanynt), h.y. nid oes rhaid i westeion ddefnyddio golchfa. • Lle ar gael i rewi bwyd yn y fflat (mae blwch rhew 3*** mewn oergell yn dderbyniol). • Peiriant golchi llestri (y maint yn addas i'r nifer y mae'r fflat yn ei letya) neu wasanaeth golchi llestri rhad ac am ddim wedi ei ddarparu yn y fflat. Darparu nifer bach o dabledi peiriant golchi llestri ar y dechrau a rhoi hysbysiad am hynny.
5 Seren	• Darparu rhewgell yn y fflat (nid yw blwch rhew'n dderbyniol ar y lefel hon). • Darparu peiriant golchi yn y fflat. (Gwasanaeth golchi dillad i'w dychwelyd o fewn 24 awr yn dderbyniol hefyd – ni cheir codi tâl amdano). • Darparu peiriant golchi llestri yn y fflat (y maint yn addas i'r nifer y mae'r fflat yn ei letya).
Isafswm y Gofynion Mynediad	
Lloriau	• Rhaid bod gorffeniadau neu orchuddion addas ar loriau'r holl geginau. Dylid ystyried addasrwydd gorchuddion llawr o ran hylendid a gwaith cadw tŷ.
Gwresogi, Goleuo ac Awyru	• Rhaid i ddull gwresogi digonol fod ar gael bob amser a fydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn golygu darparu gwresogi yn y gegin, os yw'n fawr neu ar wahân. • Rhaid i geginau fod wedi eu goleuo'n ddigonol a rhaid bod gorchuddion neu amddiffyniad addas ar yr holl oleuadau. Fel canllaw, y lefelau goleuo isaf yw 140 wat (gyda'i gilydd) neu'r hyn sy'n cyfateb ar watedd isel. Disgwylir watedd uwch a mwy o amrywiaeth o oleuadau mewn ystafelloedd mwy. • Dylid cael ffenestr sy'n agor neu system awyru sydd wedi ei chymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol.

11. Stocrestr y Gegin

Isafswm y Gofynion Mynediad		
I bob person **Rhaid i'r holl lestri gydweddu** **Dylai setiau o wydrau gydweddu hefyd.**	Powlen – grawnfwyd / pwdin Plât – mawr a bach Mwg Gwydr Gwydr gwin Cyllyll* - cyllell fwrdd a chyllell fach Llwyau – cawl, pwdin a the Ffyrc* - fforc fwrdd a fforc bwdin	*Cyllyll a ffyrc – mae'n dderbyniol darparu dwywaith y nifer h.y. dwy o bob un. Rhaid i'r holl lestri gydweddu; fel y dylai'r set o wydrau. *Dylid ystyried nifer yr eitemau a ddarperir mewn cysylltiad ag ymwelwyr y gwesteion a nifer isaf ac uchaf y meddianwyr.*
I bob fflat	Blychau llwch (os caniateir ysmygu) neu wybodaeth ynghylch dim ysmygu. Hambwrdd pobi Bin/cynhwysydd bara Cyllell fara Cyllell gerfio Bwrdd torri cig Colandr Pupur a halen Corcsgriw ac agorwr poteli Blwch, rhesel neu hambwrdd drôr i ddal cytleri Clwt llestri a/neu frws golchi llestri Rhaw lwch a brws Padell ffrio Hambwrdd rhew Tegell – awtomatig – heb gordyn os oes modd. Siswrn cegin Powlen gymysgu Clwt ffwrn Matiau bwrdd	Piliwr tatws Sosbenni (mawr, canolig a bach gyda chaeadau) Mwy ohonynt os lletyir mwy na 6 yn y rhandy. Cynhwysydd i storio bisgedi etc Llwy fwrdd Llieiniau sychu llestri gyda bachau, rheiliau neu sugnwyr i'w dal Agorwr tuniau Tostiwr Hambwrdd Lle i storio offer e.e. rhesel, pot neu ddrôr wedi ei rannu Cyllell torri llysiau Powlen golchi llestri Hylif golchi llestri/tabledi peiriant golchi llestri Llwy bren/llwy blastig Cyfleusterau syml i sychu dillad e.e. hors ddillad neu lein ddillad neu daflwr sychu Brws Bwced Cafetiere neu beiriant gwneud coffi Dysgl gaserol gyda chaead Tebot
I'w darparu yn y rhandai neu ar gael ar gais yn y dderbynfa. Os nad oes derbynfa, rhaid eu darparu yn y rhandy.	Bin bara/cynhwysydd storio bara Gratiwr caws Cwpanau wyau Sleis bysgod Haearn smwddio a bwrdd smwddio Jwg mesur	Clwt neu fenyg ffwrn Bylbiau golau sbâr Sugnwr llwch Jwg dŵr Chwisg

Arweiniad ar gyrraedd yr ansawdd disgwyliedig ar gyfer sgôr ansawdd benodol

Graddau Ansawdd

Mae'r adrannau yn y rhan hon o'r canllaw yn dilyn trefn y ffurflen raddio ac maent yn egluro i chi beth y mae'r Asesydd Ansawdd yn ei farcio dan bob eitem ar y ffurflen. Mae'n dangos i chi beth a ddisgwylir ar y gwahanol lefelau ansawdd (mae 1 Seren yn cyfateb i'r lefel sylfaenol, h.y. ansawdd derbyniol), (5 Seren –ansawdd Rhagorol i Eithriadol), mewn cysylltiad ag agwedd benodol ar yr eiddo. Dylai fod o gymorth ichi ddeall beth sy'n arwain ein Hasesydd Ansawdd i roi sgôr benodol.

Dylid nodi bod y Dangosyddion Ansawdd hyn yn nodweddiadol, **ond nad ydynt yn ddiffiniol nac yn gyfarwyddol**.

Cyngor

Ar ddiwedd rhai adrannau, gwelwch fod paragraff sy'n rhoi cyngor cyffredinol ynghylch yr agwedd honno ar yr eiddo. Ei bwrpas yw cynnig awgrymiadau ar gyfer gwella a hybu ansawdd, i'ch helpu i gyrraedd gradd benodol neu ei chadw, ond ni fydd dilyn y cyngor ar ei ben ei hun yn sicrhau gradd ansawdd uwch.
Os bydd angen, gall ein Haseswyr Ansawdd gynnig cyngor pellach, sy'n ymwneud â'ch eiddo chi'n benodol, un ai yn ystod yr archwiliad graddio neu yn yr adroddiad sy'n ei ddilyn. Mae'r Aseswyr Ansawdd wedi eu hyfforddi i beidio ag ystyried eu chwaeth bersonol o ran arddull neu ddyluniad.

Nid yw'r 1 – 5 Seren y cyfeirir atynt yma yn ofynion ar gyfer graddau sêr ond maent yn dangos pa lefel ansawdd a allai sicrhau sgôr benodol.

- **Ansawdd 1 Seren (1 pwynt)**

Ffactorau sy'n dangos y lefel ansawdd isaf sy'n cyfateb i Un Seren. Gellir disgrifio eitemau fel rhai sy'n dderbyniol. Rhaid i bopeth fod yn ddiogel, yn lân ac yn gweithio'n iawn. Ni ddylai fod unrhyw angen ar y pryd am waith trwsio a chynnal a chadw.

- **Ansawdd 2 Seren (2 bwynt)**

Ffactorau sy'n dangos lefel ansawdd sy'n cyfateb i Ddwy Seren

Gellir disgrifio eitemau fel rhai sy'n Weddol Dda neu Dda. Ar y lefel hon, gallai eitemau fod yn gyfyngedig o ran eu hamrywiaeth ond yn rhai sydd o safon dda o ran glendid ac yn gweithio'n iawn.

- **Ansawdd 3 Seren (3 phwynt)**

Ffactorau sy'n dangos lefel ansawdd sy'n cyfateb i Dair Seren. Gellir disgrifio eitemau fel rhai sy'n Dda neu'n Dda Iawn. Efallai y bydd rhywfaint o dystiolaeth o draul ond bydd y safon cynnal a chadw'n dda o ran cyfleusterau ac addurniadau.

- **Ansawdd 4 Seren (4 phwynt)**

Ffactorau sy'n dangos lefel ansawdd sy'n cyfateb i Bedair Seren. Gellir disgrifio eitemau fel rhai sy'n Dda Iawn neu'n Rhagorol ac ni fydd unrhyw arwyddion amlwg o draul ar y cyfleusterau sydd wedi eu darparu.

- **Ansawdd 5 Seren (5 phwynt)**

Ffactorau sy'n dangos lefel ansawdd sy'n cyfateb i Bum Seren. Gellir disgrifio eitemau fel rhai sy'n Rhagorol neu'n Eithriadol. Bydd safon gyffredinol yr adeiladwaith y tu mewn a'r tu allan yn uchel iawn, a bydd y safonau rheoli'n rhagorol.

Y tu allan

Golwg yr adeiladau

Arweiniad ar Ansawdd	Asesir addurniadau'r adeilad, ei gyflwr a'r gwaith cynnal a chadw arno yn yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys gwaith cerrig, gwaith coed, gwaith peintio, landeri, peipiau glaw, peipiau dŵr allanol, simneiau a thoeau. Ystyrir arwyddion allanol sydd wedi eu gosod ar yr adeilad (o ran eglurder a'r gwaith cynnal a chadw arnynt) a goleuadau yn yr adran hon. Asesir unrhyw dai allan a mannau storio yma hefyd. Ystyrir bocsys ffenestri, tybiau a basgedi blodau crog sydd wedi eu gosod ar yr adeilad o dan y pennawd hwn hefyd.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Y tu allan wedi ei gadw mewn cyflwr da, glân a dymunol yn gyffredinol. • Gallai arwyddion fod yn ddisylw er mwyn gweddu i'r farchnad a dargedir. • Gellid cael rhai arwyddion o draul a diffygion bach mewn gwaith cerrig a gwaith brics. • Y mannau cyfagos yn daclus at ei gilydd gan gynnwys adeiladau/mannau storio.
2 Seren	• Dylai arwyddion o draul a diffygion fod yn gyfyngedig i nifer bach o fannau.
3 Seren	• Wedi ei gynnal a'i gadw'n dda – gellid cael arwyddion o hindreulio. • Dim diffygion amlwg yn yr adeiladwaith. • Os oes arwyddion, maent wedi eu cadw mewn cyflwr da.
4 Seren	• Gwaith cynnal a chadw o ansawdd uchel ar waith cerrig a gwaith peintio – gellid cael rhai arwyddion o hindreulio.
5 Seren	• Safonau rhagorol o ran gwaith cynnal a chadw allanol, gan gynnwys ys: tai allan ac arwyddion e.e. gwaith peintio newydd sy'n cael ei gadw'n dda, dim staeniau diolwg ar waith cerrig. • Nodweddion ychwanegol fel tybiau blodau a bocsys ffenestri os ydynt yn briodol. • Efallai y bydd nodweddion pensaernïol deniadol. • Wedi ei oleuo'n dda'n gyffredinol ac yn enwedig wrth y fynedfa. • Disgwylir cael system ffôn ar gyfer mynediad neu rywbeth tebyg.

Tiroedd, gerddi, ffyrdd a mannau parcio ceir

Arweiniad ar Ansawdd	Os nad oes tiroedd, gerddi neu fannau parcio i'r eiddo, ni chaiff yr adran hon ei hasesu. Bydd yr asesu o dan yr adran hon yn cynnwys gerddi, gwrychoedd, llwybrau, tramwyfeydd, mannau parcio a'r holl fannau eraill sydd o fewn ffin yr eiddo ac y gellir eu gweld o'r adeilad neu y mae gan westeion fynediad iddynt ac sydd o dan reolaeth y perchennog.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Argraff gyntaf ddigonol, e.e. biniau sbwriel wedi eu gosod o'r neilltu. • Yr amgylchoedd cyfagos wedi eu cadw fel nad ydynt yn amharu ar yr olwg gyffredinol e.e. lawntiau a borderi heb dyfu'n wyllt. • Y mannau i finiau sbwriel o'r golwg ac wedi eu sgrinio os oes modd. • Mannau parcio ar wyneb caled sydd heb dyllau na chwyn. • Rhyw ymgais i ddiffinio'r man parcio. • Mynediad gweddol hawdd, mannau parcio sy'n ddiogel ac wedi eu cynnal a'u cadw'n ddigonol. Os nad oes mannau parcio ar gael, gwybodaeth wedi ei darparu i ddarpar westeion am leoedd i barcio.
2 Seren	• Tystiolaeth o fwy o ymdrech i wneud gerddi'n fwy deniadol a thaclus ac yn rhydd o sbwriel. • Llwybrau heb beryglon baglu..

Tiroedd, gerddi, ffyrdd a mannau parcio ceir (parhad)

Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
3 Seren	• Tiroedd, gerddi, tramwyfeydd a llwybrau etc yn ymddangos yn daclus ac wedi eu cynnal a'u cadw'n dda yn gyffredinol. • Mynediad rhwydd i'r mannau parcio a'u hwyneb wedi ei gadw'n dda ac wedi eu diffinio'n glir. • Goleuadau effeithiol lle mae angen e.e. tramwyfa neu lwybr hir at yr adeilad. Efallai y bydd angen goleuadau yn y mannau parcio hefyd. • Ystyriaeth i ddiogelwch ceir y gwesteion.
4 Seren	• Yr ardd wedi ei chadw at safonau uchel. Y gwelyau blodau, llwybrau a gwrychoedd yn daclus at ei gilydd a'r holl goed a llwyni wedi eu trin yn dda. • Tystiolaeth o rywfaint o ofal am fanylion e.e. wynebau da, borderi lliwgar a llwybrau gwastad llydan. • Bydd y man parcio ar wyneb sydd wedi ei gynnal yn dda ac yn agos i'r adeilad os oes modd.
5 Seren	• Wedi ei chadw at safon ragorol e.e. borderi neu lwyni wedi eu trin yn dda, llwybrau taclus a'r ymylon mewn cyflwr da ac wedi eu torri'n daclus, gwrychoedd wedi eu trimio ac ymgais gyffredinol i gadw'r olwg daclus drwy gydol y flwyddyn. • Gofal am fanylion, gan gynnwys tirlunio, tramwyfeydd, darparu dodrefn gardd neu nodweddion pensaernïol, e.e. gasebo, pergola, hafdy etc. • Digonedd o fannau parcio ger yr uned i ddarparu ar gyfer nifer tebygol y gwesteion. • Goleuadau da wedi eu lleoli'n dda.

Arfer da o ran hygyrchedd

Tiroedd, gerddi, ffyrdd a mannau parcio ceir

Cadwch lwybrau yn glir, yn rhydd o sbwriel, mwswgl, iâ a dail sydd wedi syrthio a sicrhau bod wynebau llwybrau yn gadarn ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Dylai pob llwybr fod yn rhydd o unrhyw rwystr oni bai eu bod wedi'u gosod yn sefydlog, ee potiau blodau. Sicrhewch bod graean/halen ar gael yn ystod misoedd y gaeaf i drin mannau peryglus.

Lle mae mannau i barcio yn cael eu rhannu â rhandai eraill, dylech ddarparu man penodol (neu fan y gellid ei gadw o leiaf) i bobl anabl lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ar arwynebedd gwastad, cadarn, sy'n cael ei gynnal a'i gadw yn dda, yn agos at lety'r unigolyn ei hun. Fel arall, dylech neilltuo man i ollwng unigolion, a darparu ffordd i westeion gysylltu â chi i roi gwybod eu bod wedi cyrraedd ac i adael ichi wybod os oes angen cymorth arnynt. Gallai rhai unigolion fod yn gwbl fyddar, felly cofiwch ei bod hi'n bosibl na fyddant yn gallu clywed eich ateb. Meddyliwch am ddulliau gweledol o gydnabod eich bod wedi eu gweld, er enghraifft fflachio golau gan ddefnyddio fflachlamp.

Dylai'r llwybr o'r man parcio i'r llety neu'r dderbynfa, lle mae un ar gael, fod o leiaf 180cms o led, ac wedi'i oleuo yn dda.

Rhaid darparu o leiaf un canllaw ar risiau, ac amlygu ymyl y grisiau a, lle bo hynny'n bosibl, darparu llwybr arall gwastad neu ar oleddf, gyda graddiant o 1:15 o leiaf. Yr isaf yw'r goleddf, gorau oll i bawb, nid unigolion sydd mewn cadair olwyn yn unig.

P'un a ydy ymwelwyr yn mynd yn syth i'r llety wrth gyrraedd neu yn mynd i dderbynfa, sicrhewch bod y man priodol yn amlwg, gyda digon o olau. Bydd hynny yn sicrhau bod eich gwesteion yn dawel eu meddwl, ac yn creu argraff gyntaf dda.

Os oes rhaid i ymwelwyr roi gwybod ichi eu bod wedi cyrraedd, dylech ddarparu botwm y tu allan i hawlio sylw neu ffôn i gael mynediad, gyda chyfarwyddiadau mewn print bras a ffordd o godi'r sain. Cofiwch y gallai rhai pobl fod yn gwbl fyddar.

Arfer Da o ran Cynaliadwyedd

Wrth gynllunio tiroedd, gerddi a'r ardaloedd y tu flaen i'r llety, ystyriwch ddefnyddio deunyddiau sy'n cadw'n driw i'r ddaearyddiaeth a'r ddaeareg leol.

Yr Amgylchedd

	Ystyriaeth i agweddau cadarnhaol a negyddol ar leoliad yr eiddo a'r ardal gyfagos a allai effeithio ar gysur y gwesteion. Diystyrir chwaeth bersonol. Ystyrir ymdrechion sydd wedi eu gwneud i oresgyn effeithiau amgylchedd gwael drwy sgrinio neu godi cloddiau er mwyn lleihau unrhyw olygfeydd annymunol neu sŵn e.e. gwydro dwbl.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Argraff gyntaf foddhaol. Lefelau sŵn o draffig neu ffynonellau diwydiannol neu wledig yn dderbyniol at ei gilydd.
2 Seren	• Wrth gyffordd/cylchfan ar ffordd brysur mewn maestref mewn dinas. Yn agos i unedau diwydiannol gyda sŵn gweithgynhyrchwyr a thraffig. Y drws nesaf i ganolfan gymdeithasol brysur e.e. neuadd bingo, cae pêl-droed. Mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol amlwg. O fewn clyw i faes awyr, heb ymgais i ddarparu inswleiddio ychwanegol rhag sain. Ar safle gorlawn lle mae unedau'n agos at ei gilydd.
3 Seren	• Yng nghanol dinas/tref, gyda rhai cyfyngiadau parcio a thraffig prysur ond yn agos i'r holl amwynderau. Ar fferm sy'n gweithio lle mae llaid ar y ffordd fynediad neu rai peiriannau fferm yn agos. Mewn maestref mewn dinas lle mae traffig prysur a sŵn o bell. • Mewn lleoliad diarffordd, gyda mynediad anodd e.e. lôn serth, anwastad. Argraff gyntaf ddymunol. Dim lefelau sŵn gormodol. Mannau parcio'n eithaf pell o'r eiddo.
4 Seren	• Gallai fod yn rhan o gyfadeilad neu gasgliad o adeiladau sydd mewn lleoliad rhagorol fel arall. Yn agos i amwynderau dymunol ond bod y mynediad iddo, er enghraifft, ar hyd system unffordd brysur braidd, gyda rhywfaint o sŵn yn yr amgylchedd. O fewn pellter cerdded i gyfleusterau, ond bod mannau parcio ar gael yn rhwydd yno. Mewn lleoliad a fyddai'n cael ei ystyried yn rhagorol, gan mwyaf, oni bai am ryw ffactor sy'n achosi anghyfleustra gan ostwng sgôr ragorol.
5 Seren	• Mewn sefyllfa ddiarffordd yn aml, mewn tiroedd helaeth, neu mewn safle uchel gyda golygfeydd eang. Amgylchedd trefol, yn agos i ganolfan lle mae gweithgarwch cymdeithasol/diwylliannol fel canol dinas, gyda mynediad rhagorol ar droed neu drafnidiaeth gyhoeddus i fwytai, theatrau, neuaddau cyngerdd, orielau.

Cyngor

Mae'r argraff gyntaf yn bwysig, felly dylid cadw tiroedd, gerddi, mannau parcio a thramwyfeydd fel eu bod mor rhydd o chwyn ac mor daclus ag sy'n bosibl. Ystyriwch y farchnad y mae'ch eiddo'n ei gwasanaethu; ar gyfer teuluoedd, efallai na fydd gwelyau blodau ffurfiol a phyllau dŵr yn addas ac efallai y bydd angen i'r glaswellt fod yn amrywogaeth sy'n fwy gwydn. Fodd bynnag, efallai y bydd cyplau'n gwerthfawrogi gerddi lliwgar, llawn planhigion. Os yw adeiladau'n agos at ei gilydd neu'n agos i eiddo'r perchennog, efallai y bydd yn well gan y gwesteion gael rhyw fath o sgrinio er mwyn rhoi preifatrwydd. Os yw anifeiliaid gwyllt a domestig yn rhydd i grwydro, efallai y bydd gwesteion yn mwynhau'r agwedd hon, ond nid y llanastr a fydd ar eu hôl efallai.

Glendid

Arweiniad ar Ansawdd	**Mannau cyffredin (mae hyn yn cynnwys rhannau cyffredin, mannau agored ac ystafelloedd byw a bwyta o fewn rhandai etc)** – ffenestri, lloriau a bordiau wal, sangfeydd grisiau, dadoau/rheiliau lluniau a lluniau, clustogau dan seddau, y tu mewn a'r tu allan i ddodrefn, pwyntiau trydan a switsys golau, ffitiadau golau, ymylon nenfydau a nwyddau trydanol. **Ystafelloedd gwely** – Y tu mewn a'r tu allan i ddodrefn (pennau wardrobau a'r tu mewn iddynt), ffitiadau golau ac ymylon nenfydau, lloriau a bordiau wal, o dan welyau, ffenestri, pennau gwelyau, fframiau a matresi. **Ystafelloedd ymolchi** – Mae hyn yn cynnwys gorffeniadau wal, lloriau, cyfarpar, llenni cawod, ffitiadau golau, ffaniau echdynnu, tyllau plygiau, tapiau a brwsys toiled. **Cegin** – Mae hyn yn cynnwys lloriau, waliau, a theils, y tu mewn i gypyrddau a droriau, cyfarpar, llestri, potiau, sosbenni etc yn ogystal â lwfrau poptai, ffaniau echdynnu, wynebau gweithio, cefnfyrddau a bylchau rhwng unedau.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Yr holl wynebau a chyfarpar yn lân a heb lwch yn gyffredinol. • Yr holl garpedi wedi eu glanhau â sugnwr llwch. • Aroglau ffres a glân ym mhob man cyn i'r gwesteion gyrraedd.
2 Seren	• Safon eithaf da yn gyffredinol er bod rhai mannau wedi eu hanghofio e.e. gwe pryfed cop.
3 Seren	• Tystiolaeth o ofal am fanylion, yn enwedig ar lefel uchel ac isel. • Wynebau glân ag aroglau ffres. • Deunyddiau meddal a charpedi wedi eu glanhau'n ddwfn yn rheolaidd neu yn ôl yr angen.
4 Seren	• Mwy o ofal am fanylion, gyda safonau uchel yn amlwg yn gyffredinol. • Wynebau sy'n sgleinio gyda thystiolaeth o lanhau trwyadl a llawer iawn o ofal am fanylion.
5 Seren	• Lefel glendid ragorol. • Deunyddiau meddal a charpedi fel newydd. • Sglein i'w weld ym mhob man.

Arfer Da o ran Cynaliadwyedd

Ystyriwch ddefnyddio cynnyrch glanhau ecogyfeillgar ac sy'n rhydd o glorin, fel clytiau microffeibr sy'n cwtogi ar yr hylif glanhau sydd ei angen.

Rheoli Effeithlon

Gwybodaeth i westeion cyn iddynt gyrraedd yn cynnwys taflen wybodaeth

Arweiniad ar Ansawdd	Asesir yma y gweithdrefnau ar gyfer delio â gwesteion wrth iddynt archebu, cyn iddynt gyrraedd, ar ôl cyrraedd a'r wybodaeth a ddarperir fel y gall y gwesteion gael y mwyaf o'u harhosiad. *Mae hyn yn cynnwys hefyd y wybodaeth a anfonir cyn archebu llety sy'n ceisio hysbysu'r gwestai am yr eiddo a'r ardal. Gallai hyn gynnwys gwefan y gweithredwr a/neu asiant ar gyfer yr eiddo.*
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Gallai'r daflen wybodaeth/gwefan fod yn syml, yn ddalen wedi ei theipio gyda gwybodaeth syml. • Map/cyfarwyddiadau clir a hawdd eu dilyn ar ôl archebu. • Anfon llythyr cadarnhau drwy'r post/ffacs.
2 Seren	• Gallai'r daflen wybodaeth/gwefan gynnwys gwybodaeth fwy manwl ond gallai fod ar un ochr o hyd.
3 Seren	• Cynnwys un llun neu ddarlun (gallai fod yn ddu a gwyn) gyda gwybodaeth fwy manwl. • Gellid cynnwys llythyr cyflwyno.
4 Seren	• Byddai'r daflen wybodaeth/gwefan yn cynnwys lluniau a byddai mewn lliw fel arfer, ond efallai na fydd wedi ei chynhyrchu'n broffesiynol. • Taflen wybodaeth drefnus a llawn gwybodaeth ar bapur da.
5 Seren	• Wedi ei chynhyrchu at safon broffesiynol gyda gwybodaeth glir a helaeth. • Anfon cyfarwyddiadau manwl a hawdd eu dilyn ar ôl archebu. • Llythyr cyflwyno personol a gwybodaeth i ymwelwyr gydag ef.

Cyngor

Dylid dangos yn fras ym mhle mae'r eiddo, ond gellir anfon cyfarwyddiadau manwl ar ôl archebu er mwyn diogelwch.

Arfer da o ran hygyrchedd

Mae'n bwysig cofio bod gwahanol bobl yn hoffi gwahanol ffyrdd o gyfathrebu, ac nid oes gan bob cwsmer arfaethedig fynediad at y rhyngrwyd. Rhowch ddewis o sut i gadw lle i'ch gwesteion, ee dros y ffôn, drwy lythyr, e-bost, ffacs, ffôn testun 'type talk' a minicom. Mae'n arfer da hefyd i ofyn i bob ymwelydd a oes ganddynt unrhyw anghenion mynediad. Mae hynny yn bwysicach fyth heddiw, gan fod modd cadw lle heb gynnal trafodaeth rhyngoch chi a'r gwestai wrth iddynt gadw lle ar-lein. Bydd cael Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd yn helpu i feithrin agwedd a fydd yn dangos mwy o gydymdeimlad ag anghenion gwirioneddol ac anghenion tybiedig gwesteion.

Dylid darparu gwybodaeth am wasanaethau ychwanegol fel glanhau dyddiol, prydau, gwasanaethau ysgrifenyddol a gwasanaethau golchi/sychlanhau mewn ffurfiau amrywiol i fodloni dewis gwahanol bobl, ee print bras, Braille, ffotograffau, lawrlwytho MP3. Hefyd, pan fyddwch yn comisiynu gwefan newydd neu yn uwchraddio, sicrhewch bod eich dylunwyr yn gyfarwydd â chanllawiau hygyrchedd y we – www.w3.org.uk

Arfer Da o ran Cynaliadwyedd

Ystyriwch ddrafftio eich polisi rheoli amgylcheddol eich hun, a fydd yn nodi'r camau gweithredu sydd wedi eu cymryd o safbwynt amgylcheddol a chynaliadwyedd; ymunwch â chynllun twristiaeth werdd. Ymunwch â chynllun gwirfoddol talu'n ôl i ymwelwyr, neu sefydlwch gynllun o'r fath, lle mae'r busnes yn casglu arian a'i roi i elusen leol. Fel arall, rhowch gyfraniad corfforaethol i elusen leol, amgylcheddol neu addysgol.

Gweithdrefn croesawu a chyrraedd

Arweiniad ar Ansawdd	Dyma'r weithdrefn a ddefnyddir i groesawu gwesteion ac mae'n cynnwys trefniadau ar gyfer.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Efallai na fydd yn bosibl croesawu gwesteion yn bersonol felly gellir gadael allwedd mewn lle diogel i rai sy'n cyrraedd.
2 Seren	• Gellid cael yr allwedd gan ddeilydd allweddi, ond bydd y gweithgarwch croesawu ychwanegol yn gyfyngedig. • Cerdyn croeso'n gwahodd gwesteion i gysylltu â'r perchennog neu'r asiant neu gynrychiolydd ar unrhyw adeg yn ystod eu harhosiad.
3 Seren	• Os yw cynrychiolydd ar y safle i gwrdd â rhai sy'n cyrraedd, dylai eu cyfarwyddo/hebrwng i'w rhandy.
4 Seren	• Estynnir croeso personol a hefyd rhoddir llythyr croeso neu alwad ffôn neu ymweliad, rywdro wedi iddynt gyrraedd i sicrhau bod pob dim yn iawn.
5 Seren	• Caiff y gwesteion eu cyfarch wrth iddynt gyrraedd a chysylltir i sicrhau eu bod yn fodlon ar ôl 24 awr. • Rhoi cymorth heb ofyn i gario bagiau.

Arfer Da o ran Hygyrchedd

Os nad oes unrhyw un yn aros wrth y dderbynfa, neu os nad oes gofalwr, ystyriwch ddarparu rhif ffôn neu ffôn gwasanaeth i gysylltu â man cyswllt/deiliad allwedd.

Os oes unigolyn wrth y dderbynfa, bydd ardal â golau da, taclus yn hwyluso mynediad at ddesg y dderbynfa. Ystyriwch hefyd ddarparu seddi i westeion sy'n aros – gan ddibynnu ar y lle sydd ar gael. Mae'n beth da hefyd i ddarparu clipfwrdd a beiro a dolen gyswllt symudol, os yw hynny'n bosibl, i helpu i gyfathrebu â'r rhai sy'n cael trafferth â'u clyw.

Lle mae pobl mewn cadeiriau olwyn yn gallu cael mynediad i'r safle, dylai rhan o'r ddesg fod ar lefel is, neu dylid darparu bwrdd ar wahân gyda rhwng 65cm a 75cm o leiaf o le o dan y bwrdd. Bydd carped tenau yn helpu i ddarparu awyrgylch dawelach ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth, a bydd o gymorth i bobl symud. Bydd deunydd llawr a matiau gwrth-lithr wedi'u gosod yn y llawr yn helpu i atal pobl rhag baglu a llithro.

Pecyn neu fasged croeso

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys cyflenwi cynhwysion i wneud diodydd a darpariaethau eraill a fydd yn barod i'r gwesteion wedi iddynt gyrraedd ac yn ddigon iddynt am gyfnod byr.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Cynhwysion i wneud diodydd syml h.y. te, coffi, siwgr, llaeth. Gallent fod mewn bagiau bach.
2 Seren	• Cynhwysion o ansawdd gwell i wneud diodydd.
3 Seren	• Yn debygol bod mwy o ddewis o ddiodydd poeth e.e. dewis o wahanol fathau o de a diodydd eraill fel siocled poeth. • Byddai bisgedi wedi eu cynnwys fel arfer.
4 Seren	• Bydd y pecyn croeso yn cynnwys, er enghraifft, grawnfwydydd, sudd ffrwythau, digon o laeth, siwgr, bara a theisennau gyda menyn a jamiau fel y gall yr holl westeion gael brecwast ar eu bore cyntaf.
5 Seren	• Bwydydd o ansawdd rhagorol a mwy o ddewis o gynhwysion brecwast e.e. wyau, caws, bacwn, bara, menyn etc. Dewis helaeth o ddiodydd a phob un o ansawdd da a gallai gynnwys potel o win.

Gwybodaeth i Westeion ac Ymwelwyr

Gwybodaeth i westeion yn yr uned a chyffyrddiadau personol

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys darparu a chyflwyno gwybodaeth am y llety e.e. sut i ddefnyddio'r offer, gwybodaeth am yr adeilad fel gwaredu gwastraff ac oriau'r gofalwr, yn ogystal â gwybodaeth i ymwelwyr e.e. *Cyffyrddiadau personol yw'r agweddau hynny sy'n gwneud y rhandy'n fwy cartrefol a chroesawus fel planhigion, llyfrau, fideos, ornamentau etc.*
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Gwybodaeth i ymwelwyr am yr ardal leol a chyfagos. Gallai fod ar ffurf argymhellion personol a gallai gynnwys manylion y peiriannau arian agosaf, bwytai, canolfannau hamdden, addoldai etc. Ychydig bach o gyffyrddiadau personol. • Darparu manylion ynghylch sut i weithio'r holl offer yn yr uned ac am gasglu sbwriel.
2 Seren	• Dewis rhesymol o wybodaeth i ymwelwyr nad yw'n rhy hen. • Dewis bach o eitemau, e.e. llyfrau, DVDs, CDs etc.
3 Seren	• Dewis eang o wybodaeth i ymwelwyr gan gynnwys lleoedd bwyta, etc a honno'n gyfoes fel arfer. • Gwybodaeth am y llety wedi ei chyflwyno'n dda. • Dewis ehangach o eitemau gan gynnwys llyfrau, gemau a chylchgronau. • Gwybodaeth fanwl i westeion e.e. siopau lleol, tafarnau, cyfleusterau hamdden, eglwysi, etc.
4 Seren	• Dewis eang o wybodaeth i ymwelwyr am yr ardal leol a chylch ehangach. Byddid yn disgwyl i'r taflenni fod mewn rhyw fath o drefn. • Gwybodaeth ychwanegol wedi ei chasglu gan y perchnogion yn hytrach na thaflenni a gynhyrchwyd yn fasnachol. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am weithgareddau chwaraeon a hamdden lleol, gwasanaethau busnes, lleoliad banciau, siopau, bwytai, theatrau etc. yn enwedig y rheini sy'n gwerthu cynnyrch lleol. Dylid arddangos hyn mewn cas cadw sy'n dal dalennau rhydd neu mewn rhesel. Gellid gosod gwasanaethau gofalwr yn allanol. • Amrywiaeth dda iawn o gyffyrddiadau personol gan gynnwys llyfrau, gemau, pecyn trwsio, barbeciw, planhigion a chylchgronau.
5 Seren	• Gwybodaeth gynhwysfawr a allai gwmpasu llyfrau am bethau o ddiddordeb yn yr ardal, mapiau arolwg ordnans, gwybodaeth ar gyfer cerdded etc. Bydd y gofalwr yn rhagweithiol ac yn wybodus iawn. • Dewis rhagorol o eitemau a allai gynnwys e.e. llyfrau coginio, cyfeiriaduron ffôn, CDs, DVDs gan gynnwys rhai gwag ar gyfer recordio. • Cyflwyno manylion cynhwysfawr at y safon uchaf.

Cyngor

Meddyliwch am yr hyn y byddech chi'n hoffi ei wybod pe byddech yn ddieithr i'r ardal a gwnewch restr o argymhellion personol ar gyfer pethau fel bwytai, tafarnau, siopau, llwybrau cerdded etc. Gellid trefnu taflenni gwybodaeth i ymwelwyr yn ôl math, e.e. addas i blant, gweithgareddau ar gyfer diwrnodau glawog etc. Mae angen ichi adael i'r gwestai wybod y bydd yn werth iddo ddychwelyd, gan fod cymaint o bethau i'w gweld a'u gwneud.

Os darperir chwaraewr DVDs neu CDs, gellid cynnwys detholiad o CDs a DVDs. Os darperir recordydd DVD, gellid darparu DVDs gwag a/neu rai DVDs adloniant. Mewn rhai ardaloedd gallai fod yn bosibl prynu fideos/DVDs am yr ardal leol a'i hatyniadau, y gallai gwesteion eu mwynhau.

Arfer Da o ran Cynaliadwyedd

Mae'r wybodaeth i dwristiaeth yn yr unedau yn gyfle ichi restru safleoedd cyfagos sy'n gwerthu bwyd, diod a chrefftau lleol, yn ogystal â gwybodaeth am y cynhyrchwyr lleol. Gallech gynnig awgrymiadau ar gyfer diwrnodau heb y car a rhoi manylion am amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus a rhifau cyswllt i annog gwesteion i wneud hynny. Rhowch wybodaeth am lwybrau cerdded a beicio a manylion unrhyw gyfleusterau llogi beic lleol.

Mannau cyhoeddus cymunedol (Derbynfa, lobi, grisiau, coridorau, lifftiau)

Addurno

Arweiniad ar Ansawdd	Yn ogystal â waliau a nenfydau, asesir y ddarpariaeth o luniau a phrintiau a'r holl addurniadau wal yma ynghyd â'u hansawdd. Wrth asesu'r addurno ar waliau, nenfydau a gwaith coed, ystyrir yr ansawdd, y dull dull gosod a'r cyflwr. Ni ystyrir chwaeth bersonol yr asesydd o ran arddull a dyluniad.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Addurn ymarferol ac ychydig o gydweddu. • Ychydig o gerfweddau ac addurniadau.
2 Seren	• Addurn wedi ei osod yn fedrus o ansawdd eithaf da. Ychydig o frychau amlwg.
3 Seren	• Y tu mewn yn dda, gyda thystiolaeth o ddylunio cydweddol. • Gorchuddion wal a gwaith peintio o ansawdd da gyda gorffeniad da. • Defnyddio lluniau etc., os yw'n briodol, yn enwedig ar waliau plaen.
4 Seren	• Gorffeniad o safon broffesiynol mewn cyflwr da iawn gyda lefel addurno sy'n addas i'r arddull.
5 Seren	• Dyluniad mewnol ac argraff gyffredinol ragorol. • Gorchuddion wal o ansawdd uchel sydd mewn cyflwr rhagorol; gorffeniad proffesiynol ar bob agwedd ar yr addurno. • Defnyddio lluniau, printiau a cherfweddau addurnol eraill mewn modd deniadol os yw'n briodol.

Arfer Da o ran Cynaliadwyedd

Gellir defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiadau neu ffotograffau yn dangos golygfeydd lleol a delweddau sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth, gan fod hynny yn ychwanegu at y synnwyr o le y mae'r ymwelwyr yn ei gael.

Lloriau

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys yr holl fathau o ddeunydd llawr fel carpedi, pren haenog, deunydd seramig, coed seramig naturiol a feinyl. Asesir eu hansawdd, eu cyflwr a'r gwaith gosod.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Y lloriau'n ddigon cyfforddus, rhai arwyddion o draul efallai. Fodd bynnag, dylent fod wedi eu gosod yn broffesiynol.
2 Seren	• Ansawdd eithaf da, ond gallai carpedi gynnwys llawer o ffeibrau gwneuthuredig. • Dylai'r teils fod heb fawr o ddifrod iddynt.
3 Seren	• Deunydd llawr o ansawdd da sydd mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed. Bydd growt glân rhwng y teils. • Lloriau pren mewn cyflwr da.

Lloriau (parhad)

4 Seren	• Deunydd llawr o ansawdd uchel, ond nid yn newydd o reidrwydd, arwyddion o draul efallai neu ansawdd mwy canolig, ond mewn cyflwr fel newydd. • Os darperir matiau, dylent fod o ansawdd uchel.
5 Seren	• Deunydd llawr o ansawdd uchel mewn cyflwr rhagorol. Dim arwyddion traul gwirioneddol.

Dodrefn, deunyddiau a ffitiadau

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys ansawdd a chyflwr dodrefn gan gynnwys desg y dderbynfa, byrddau bach, seddau, clustogau gwasgar, polion llenni, llenni, ffitiadau golau, offer gwresogi etc.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Darpariaeth gynnil ond digonol o ddodrefn, deunyddiau a ffitiadau, o ran nifer ac ansawdd. • Rhywfaint o ymdrech i gydweddu.
2 Seren	• Gwell defnydd o ddodrefn a ddefnyddir yn achlysurol.. • Llenni o ansawdd gwell.
3 Seren	• Dodrefn o ansawdd da. • Cydweddu da.
4 Seren	• Dodrefn o ansawdd uchel sy'n gyfforddus iawn. • Mae'n debygol y bydd addurniadau ychwanegol ar lenni fel llinynnau rhwymo.
5 Seren	• Dodrefn modern, dodrefn atgynhyrchiad neu ddodrefn hynafol o ansawdd uchel. Dylai desg y dderbynfa fod yn gydnaws â hyn. • Cydweddu rhagorol rhwng dodrefn a ffabrigau. • Graddau uchel o esmwythdra. • Ffabrigau meddal o ansawdd da.

Lle, cyfforddusrwydd a hwylustod

Arweiniad ar Ansawdd	Mae'r adran hon yn ystyried y defnydd o le a sut mae'r adeilad wedi ei gynllunio i gynnig y cyfleuster a a hwylustod mwyaf posibl wrth ei ddefnyddio i'r gwesteion. A oes rhywle yn y dderbynfa i westeion gael disgwyl?
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Digon o le i westeion sy'n cyrraedd gyda'u bagiau. • Coridorau a grisiau mewn cyflwr da a heb rwystrau. • Rhoddir sylw neilltuol i'r gwaith o gynnal a chadw dolenni drws, rhifau rhandai, gwaith pres a phaneli gwydr. • Arwyddion cyfeirio clir i'r rhandai ac i lifftiau/allanfeydd fel y bo'n briodol.
2 Seren	• Fel y rhai ar gyfer Un Seren, ond yr ansawdd yn well.
3 Seren	• Desg amlwg yn y dderbynfa gyda lle i'r gwesteion lofnodi'r llyfr.
4 Seren	• Mwy o le a chysur gan gynnwys seddau ar gyfer gwesteion sy'n cyrraedd a gadael efallai.
5 Seren	• Derbynfa sydd wedi ei dynodi'n glir.

Gwresogi, goleuo ac awyru

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn ymwneud ag ansawdd y goleuo a'r gwresogi a'r ddarpariaeth ohonynt ac a yw'n ddigonol ar gyfer maint y lle a nifer y gwesteion sy'n defnyddio'r lle hwnnw. Dylid cael cydbwysedd rhwng golau naturiol a golau artiffisial lle y bo'n briodol.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Lefelau goleuo digonol 24 awr y diwrnod, a'r goleuadau wedi eu lleoli'n briodol (yn cynnwys grisiau, pennau grisiau a choridorau.) • Lefelau gwresogi sy'n addas i faint y lle. • Yr holl fannau wedi eu hawyru'n dda.
2 Seren	• Lefelau goleuo eithaf da.
3 Seren	• Lefelau goleuo da ym mhob man gan gynnwys grisiau, pennau grisiau a choridorau etc. Mae'n debygol y bydd mwy nag un ffynhonnell golau mewn mannau eistedd e.e. lampau pared, lampau coes hir. Digonedd o olau naturiol. • Lefelau gwresogi effeithiol sy'n sicrhau tymheredd unffurf yn gyffredinol.
4 Seren	• Lefelau goleuo da iawn. Dylid cael nifer o fathau o oleuadau gwahanol mewn mannau eistedd e.e. lampau bwrdd, lampau pared, goleuadau lluniau etc.
5 Seren	• Goleuo rhagorol sy'n creu effaith dda ac yn dangos y tu mewn ar ei orau. • Dylai'r goleuadau fod yn addas i'w dibenion, fel cofrestru gwesteion etc.

Arfer Da o ran Hygyrchedd

Mae o fudd i bawb i osod sgrin o flaen arwynebau rheiddiaduron i atal y preswylwyr rhag llosgi.

Arfer Da o ran Cynaliadwyedd

Gall insiwleiddio gwell a gwneud mwy o ddefnydd o wres sy'n cael ei reoli gan thermostat, a defnyddio system sy'n gwresogi gwahanol rannau o'r llety helpu i arbed ynni, a cheisiwch ddefnyddio golau naturiol yn y ffordd orau posibl.

Lifts

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys yr holl lifftiau y gall gwesteion fynd iddynt. Os yw gwesteion a staff gwasanaethu'n rhannu lifftiau, ystyrir hyn hefyd.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Bydd cymorth ar gael os gofynnir i gario bagiau lle nad oes lifft i rai lloriau. • Os nad oes lifft i rai lloriau, dylid egluro hyn ar adeg archebu'r llety.
2 Seren	• Fel y rhai ar gyfer Un Seren.
3 Seren	• Ar y lefel hon, nid y ddarpariaeth o lifft yn unig sy'n bwysig, ond hefyd y maint, y cysur, yr ansawdd a'r cyflymder.
4 Seren	• Fel hwnnw ar gyfer Tair Seren.
5 Seren	• Os yw gwesteion a staff yn rhannu lifftiau, dylid rhoi blaenoriaeth i westeion ar y lefel hon.

Arfer Da o ran Hygyrchedd

Lle mae lifftiau ar gael, nid yw bob amser yn bosibl, yn economaidd nac o ran strwythur, i osod un sy'n cydymffurfio â'r canllawiau arfer gorau, ond mae'n bosibl gosod lifftiau gyda negeseuon clywedol a llythrennau wedi'u codi ar baneli rheoli unrhyw bryd. Pan mae lifft newydd yn cael ei osod, y mesuriadau mewnol a ffefrir yw 120cm o led x 140cm o hyd a drws sy'n agor 85cm. Mae drych ar banel ôl lifft yn helpu pobl mewn cadeiriau olwyn i fynd i mewn ac allan.

Y Fflat

Mannau cyffredin (mannau eistedd a bwyta).

Mae hyn yn cynnwys lolfeydd, ystafelloedd byw, ystafelloedd gwydr ac ystafelloedd bwyta ar wahân.

Addurno

Arweiniad ar Ansawdd	Yn ogystal â waliau a nenfydau, bydd y ddarpariaeth o luniau a phrintiau a'r holl addurniadau wal a'u hansawdd yn cael eu hasesu yma. Wrth asesu addurniadau waliau, nenfydau a gwaith coed, ystyrir yr ansawdd, y dull gosod a'u cyflwr. Ni fydd chwaeth bersonol yr asesydd o ran arddull neu ddyluniad yn cael ei hystyried.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Addurn ymarferol ac ychydig bach o gydweddu. • Ychydig o gerfweddau ac addurniadau.
2 Seren	• Addurn wedi ei osod yn fedrus o ansawdd eithaf da. Ychydig o frychau amlwg.
3 Seren	• Y tu mewn yn dda, gyda thystiolaeth o ddylunio cydweddol. • Gorchuddion wal a gwaith paent o ansawdd da gyda gorffeniad da. • Defnyddio lluniau etc, os yw'n briodol, yn enwedig ar waliau plaen.
4 Seren	• Gorffeniad o safon broffesiynol mewn cyflwr da iawn gyda lefel addurno sy'n addas i'r arddull.
5 Seren	• Dyluniad mewnol ac argraff gyffredinol ragorol. • Gorchuddion wal o ansawdd uchel sydd mewn cyflwr rhagorol; gorffeniad proffesiynol ar bob agwedd ar yr addurno. • Defnyddio lluniau, printiau a cherfweddau addurnol eraill mewn modd deniadol os yw'n briodol. • Nodweddion pensaernïol diddorol, gwrthrychau diddorol, gwaith celfyddydol ac objets d'art.

Arfer Da o ran Cynaliadwyedd

Gellir defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiadau neu ffotograffau yn dangos golygfeydd lleol a delweddau sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth, gan fod hynny yn ychwanegu at y synnwyr o le y mae'r ymwelwyr yn ei gael.

Lloriau

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys yr holl fathau o ddeunydd llawr fel carpedi, coed haenog, deunydd seramig, coed naturiol a feinyl. Asesir eu hansawdd, eu cyflwr a'r gwaith gosod.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Y lloriau'n ddigon cyfforddus, efallai y bydd rhai arwyddion o draul. Dylent fod wedi eu gosod yn broffesiynol.
2 Seren	• Ansawdd eithaf da, ond gallai carpedi gynnwys llawer o ffeibrau gwneuthuredig. • Dylai'r teils fod heb fawr o ddifrod iddynt.
3 Seren	• Deunydd llawr o ansawdd da sydd mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed. Bydd growt glân rhwng y teils. Lloriau pren mewn cyflwr da.
4 Seren	• Deunydd llawr o ansawdd uchel, ond nid yn newydd o reidrwydd, arwyddion o draul efallai neu ansawdd mwy canolig, ond mewn cyflwr fel newydd. Os darperir matiau, dylent fod o ansawdd uchel.
5 Seren	• Deunydd llawr o ansawdd uchel mewn cyflwr rhagorol. Dim arwyddion traul gwirioneddol.

Dodrefn, deunyddiau a ffitiadau

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys ansawdd a chyflwr dodrefn mewn mannau bwyta a lolfeydd gan gynnwys seddau, clustogau gwasgar, polion llenni, llenni, ffitiadau golau, offer gwresogi, setiau teledu etc.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Darpariaeth gynnil ond digonol o ddodrefn, deunyddiau a ffitiadau, o ran nifer ac ansawdd. • Rhywfaint o ymdrech i gydweddu. • Gallai llenni fod heb leinin, ond dylent gwrdd yn y canol. Dylai llenni redeg yn rhydd.
2 Seren	• Mwy o ddarpariaeth o ddodrefn a allai fod wedi dyddio neu wedi treulio ond a fydd mewn cyflwr da. • Bydd y llenni/bleindiau o ansawdd gwell, yn lân ac yn rhedeg yn rhydd.
3 Seren	• Dodrefn o ansawdd da. Byddai disgwyl i glustogau wneud y seddau'n fwy esmwyth a gwella eu golwg. • Bydd rhywfaint o glustogi yn seddau'r mannau bwyta. • Llenni mwy sylweddol â leinin. • Cydweddu da. • Os yw man bwyta wedi ei ddarparu ar wahân, darpariaeth i'r nifer mwyaf o westeion gael bwyta'n gyfforddus.
4 Seren	• Dodrefn o ansawdd uchel sy'n gyfforddus iawn. • Bydd y llenni'n llawn ac mae'n debygol y bydd addurniadau ychwanegol arnynt fel llinynnau rhwymo. Llenni o ddefnydd i fod â leinin ac yn hawdd eu defnyddio.
5 Seren	• Dodrefn modern, dodrefn atgynhyrchiad neu ddodrefn hynafol o ansawdd uchel. Os darperir bwrdd dalen blyg, dylai fod yn hwylus ei ddefnyddio. • Dodrefn a ffabrigau'n cydweddu'n rhagorol. • Gorchuddion ffenestri o ansawdd rhagorol sydd wedi eu gosod yn dda gyda digon o ddefnydd llaes fel y bo'n briodol. • Ffabrigau meddal o ansawdd uchel.

Lle, cyfforddusrwydd a hwylustod

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn ystyried y defnydd o le a sut mae'r ystafell wedi ei threfnu i gynnig y cyfleuster a'r hwylustod mwyaf i'r gwesteion. A yw gwesteion yn gallu eistedd a gwylio'r teledu'n gyfforddus? A oes digon o le i nifer mwyaf y gwesteion gydfwyta? A oes rhaid symud dodrefn er mwyn defnyddio'r cyfleusterau? Ystyrir y defnydd o soffas cysgu yma gan fod hyn yn effeithio ar gysur a hwylustod.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Amrywiaeth dderbyniol o ddodrefn yn cynnig rhywfaint o gyfforddusrwydd. • Lle rhesymol i symud o gwmpas yn rhwydd. • Os bydd dodrefn mawr neu ormod ohonynt, gallent gymryd y rhan fwyaf o'r ystafell a'r defnydd ohoni. • Dylai ystafelloedd fod yn rhydd o sŵn allanol sy'n aflonyddu a gallai fod yn angenrheidiol darparu gwydro dwbl i sicrhau hyn mewn lleoliadau trefol. • Sŵn aflonyddol bach iawn oddi wrth bibellau, coridorau etc.

Lle, cyfforddusrwydd a hwylustod (parhad)

2 Seren	• Lefelau cyfforddusrwydd eithaf da a dewis cyfyngedig o seddau.
3 Seren	• Dewis o soffas a/neu gadeiriau breichiau. • Digon o le i symud o gwmpas yn rhwydd a'r dodrefn wedi eu trefnu'n gyfleus er mwyn eu defnyddio'n ymarferol.
4 Seren	• Y dodrefn wedi eu gosod yn drefnus fel y gellir gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r lle sydd ar gael. • Dylai gwesteion allu cydfwyta'n gyfforddus mewn un lle • Digonedd o le ar gael. • Os yw cegin / man byw ar gynllun agored, dylid cael awyru digonol e.e. echdynnu gyredig i sicrhau bod y lleiaf posibl o stêm ac arogleuon coginio'n treiddio i'r man byw.
5 Seren	• Lolfa, ar wahân fel arfer i'r ystafell fwyta neu lolfa/ystafell fwyta ar y cyd gyda chynllun eang rhagorol. • Dewis rhagorol o seddau cyfforddus. • Modd i ddefnyddio cyfleusterau'n rhwydd a hwylus, e.e. defnyddio wynebau gweithio a mynediad at bwyntiau trydan etc. • Dim sŵn yn aflonyddu

Arfer Da o ran Hygyrchedd

Ceisiwch ddarparu awyrgylch daclus, gyda digon o le i symud o gwmpas heb fwrw i mewn i ddodrefn. Cadwch bob llwybr yn glir, ac wedi'u goleuo'n dda, i alluogi pobl i symud yn ddiogel wrth gario bagiau neu ddefnyddio ffrâm gerdded neu gadair olwyn.

Os oes gan bobl mewn cadeiriau olwyn fynediad i'ch eiddo, ceisiwch ddarparu amrywiaeth o gadeiriau, rhai â breichiau a rhai heb, a digon o le o dan fyrddau - 65 i 75cm.

Bydd llestri sy'n cyferbynnu â lliw y lliain bwrdd neu wyneb y bwrdd o gymorth i westeion sydd â nam ar eu golwg.

Bydd carped tenau yn darparu awyrgylch dawelach i rannu gwybodaeth â rhywun sydd â nam ar y clyw, a bydd yn haws i bobl mewn cadeiriau olwyn na charped trwchus. Fel arfer, bydd yn well gan bobl mewn cadeiriau olwyn arwynebedd cadarn.

Ceisiwch osgoi carpedi trwchus a allai achosi i bobl faglu neu ei gwneud hi'n anodd i bobl mewn cadeiriau olwyn symud.

Bydd deunydd llawr a matiau gwrthlithro wedi eu gosod yn y llawr yn atal pobl rhag baglu a llithro.

Ar bob gris, neu lle mae lefel yn newid, rhowch stribyn ar yr ymyl flaen sy'n cyferbynnu â lliw y llawr.

Dylid darparu o leiaf un canllaw di-dor ar risiau a lle mae lefelau yn newid.

Sicrhewch bod pob gwestai yn gwybod sut i gael is-deitlau ar y teledu drwy ddefnyddio'r teclyn rheoli o bell. Bydd hyn o fudd nid yn unig i westeion â nam ar eu clyw ond hefyd gwesteion sy'n siarad iaith dramor.

Sicrhewch bod modd addasu lefel y golau drwy ddefnyddio switsh pylu a/neu sicrhau bod lampau bwrdd ychwanegol ar gael.

Bydd o fudd i bawb os yw arwynebedd rheiddiaduron yn cael eu gorchuddio gan gasin i atal llosgiadau

Goleuo a gwresogi

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn ymwneud â'r ddarpariaeth o oleuadau a gwresogi a'u hansawdd ac a yw'n ddigon ar gyfer maint yr uned a nifer y gwesteion a letyir. Dylid cael cydbwysedd rhwng golau naturiol a golau artiffisial lle y mae'n briodol.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Lefelau goleuo digonol a'r goleuadau wedi eu lleoli'n briodol. • Lefelau gwresogi sy'n addas i faint yr ystafelloedd. Efallai na fydd y gwresogi'n awtomatig neu ar lefel benodol.
2 Seren	• Lefelau goleuo eithaf da, gellid cael un prif olau ac un golau arall, ar watedd uwch na'r isafswm o 140 wat. • Gallai'r gwresogi fod yn annibynnol a gallai fod yn awtomatig neu wedi ei reoli gan thermostat.
3 Seren	• Lefelau da o olau y gellir ei reoli ym mhob man. • Mae'n debygol y bydd mwy nag un ffynhonnell golau e.e. lamp bared, lamp goes hir. Digonedd o olau naturiol. • Lefelau gwresogi effeithiol sy'n rhoi tymheredd unffurf yn gyffredinol. • System wresogi awtomatig sydd wedi ei gosod yn briodol a allai gael ei rheoli gan thermostat.
4 Seren	• Lefelau da iawn o oleuo y gellir ei reoli a allai gynnwys defnyddio switsys pylu mewn ystafelloedd. • Dylid cael nifer o fathau gwahanol o oleuadau e.e. lampau bwrdd, lampau pared, goleuadau lluniau etc. • Bydd y system wresogi awtomatig wedi ei gosod yn barhaol a'i rheoli gan thermostat.
5 Seren	• Goleuo rhagorol sy'n creu effaith dda ac yn dangos ystafelloedd ar eu gorau. • Dylai'r goleuadau fod yn addas i'r holl ddibenion fel darllen, gweithio etc. • Y gwestai'n gallu rheoli lefelau gwresogi bob amser yn ystod y dydd a'r nos. • Efallai na fydd gwresogyddion stôr yn bodloni'r gofyniad hwn.

Arfer da o ran Cynaliadwyedd

Gall insiwleiddio gwell a gwneud mwy o ddefnydd o wres sy'n cael ei reoli gan thermostat, a defnyddio system sy'n gwresogi gwahanol rannau o'r llety helpu i arbed ynni, a cheisiwch ddefnyddio golau naturiol yn y ffordd orau posibl.

Ystafelloedd Gwely

Addurniadau

Arweiniad ar Ansawdd	Yn ogystal â waliau a nenfydau, bydd y ddarpariaeth o luniau a phrintiau a'r holl addurniadau wal a'u hansawdd yn cael eu hasesu yma. Wrth asesu addurniadau waliau, nenfydau a gwaith coed, ystyrir yr ansawdd, y dull gosod a'u cyflwr. Ni fydd chwaeth bersonol yr asesydd o ran arddull neu ddyluniad yn cael ei hystyried.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Addurn ymarferol ac ychydig bach o gydweddu. • Ychydig o gerfweddau ac addurniadau.
2 Seren	• Addurn wedi ei osod yn fedrus o ansawdd eithaf da. Ychydig o frychau amlwg.

Addurniadau (parhad)

3 Seren	• Y tu mewn yn dda, gyda thystiolaeth o ddylunio cydweddol. • Gorchuddion wal a gwaith paent o ansawdd da gyda gorffeniad da. • Defnyddio lluniau etc., os yw'n briodol, yn enwedig ar waliau plaen.
4 Seren	• Gorffeniad o safon broffesiynol mewn cyflwr da iawn gyda lefel addurno sy'n addas i'r arddull.
5 Seren	• Dyluniad mewnol ac argraff gyffredinol ragorol ac mewn cyflwr rhagorol. • Gorffeniad proffesiynol ar bob agwedd ar yr addurno. • Defnyddio lluniau, printiau a cherfweddau addurnol eraill mewn modd deniadol. • Nodweddion pensaernïol diddorol, gwrthrychau diddorol, gwaith celfyddydol ac objets d'art, trefniadau blodau.

Arfer Da o ran Cynaliadwyedd

Gellir defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiadau neu ffotograffau yn dangos golygfeydd lleol a delweddau sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth, gan fod hynny yn ychwanegu at y synnwyr o le y mae'r ymwelwyr yn ei gael.

Lloriau

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys yr holl fathau o ddeunydd llawr fel carpedi, pren haenog, coed naturiol a feinyl.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Y lloriau'n ddigon cyfforddus. • Gallai'r gorffeniadau gynnwys carpedi, lloriau solet, coed, feinyl etc.
2 Seren	• Ansawdd eithaf da, ond gallai carpedi gynnwys llawer o ffeibrau gwneuthuredig. • Dylai'r teils fod heb fawr o ddifrod iddynt.
3 Seren	• Deunydd llawr o ansawdd da sydd mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed.
4 Seren	• Deunydd llawr o ansawdd uchel, ond nid yn newydd o reidrwydd, arwyddion o draul efallai neu ansawdd mwy canolig, ond mewn cyflwr fel newydd. • Os darperir matiau, dylent fod o ansawdd uchel.
5 Seren	• Deunydd llawr o ansawdd uchel mewn cyflwr rhagorol. Dim arwyddion traul gwirioneddol.

Cyngor

Argymhellir defnyddio isgarped o ansawdd uchel. Hyd yn oed os yw'r carped o ansawdd is, mae isgarped o ansawdd uchel yn gallu bod o gymorth a rhoi cyfforddusrwydd ac oes hwy i'r carped.

Dodrefn, deunyddiau a ffitiadau

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys dodrefn wedi eu ffitio a dodrefn ar wahân, llenni a rheiliau, clustogau gwasgar, offer gwresogi a ffitiadau golau.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Darpariaeth gynnil ond digonol o ddodrefn, deunyddiau a ffitiadau, o ran nifer ac ansawdd; rhywfaint o gydweddu. • Gallai llenni fod heb leinin, ond dylent gwrdd yn y canol. Dylai llenni redeg yn rhydd. • Gallai ffitiadau golau a gwresogi fod o ansawdd canolig.
2 Seren	• Mwy o ddarpariaeth o ddodrefn a allai fod wedi dyddio neu wedi treulio ond a fydd mewn cyflwr da. • Bydd y llenni o ansawdd gwell, yn lân ac yn rhedeg yn rhydd. • Bydd y ffitiadau golau a gwresogi o safon eithaf da.
3 Seren	• Darpariaeth helaeth a fyddai'n cynnwys bwrdd gwisgo a stôl, droriau, etc ym mhob ystafell. • Lle i hongian dillad mewn wardrob neu mewn man dynodedig y tu ôl i len ym mhob ystafell wely. • Ffitiadau o ansawdd da, mewn cyflwr da a defnyddiadwy. • Cydweddu da. • Maint y dodrefn yn gymesur â'r lle sydd ar gael.
4 Seren	• Dylai bwrdd gwisgo neu ei debyg, wardrob a droriau fod ar gael ym mhob ystafell wely. • Dodrefn o ansawdd uchel, nid yn newydd o reidrwydd, ond yn cynnig llawer o le a chyfforddusrwydd. • Bydd y llenni'n rhai llawn a gallent fod ag addurniadau ychwanegol fel llinynnau rhwymo. • Ffitiadau golau a gwresogi o ansawdd da iawn a gedwir mewn cyflwr da iawn.
5 Seren	• Dodrefn modern, dodrefn atgynhyrchiad neu ddodrefn hynafol rhagorol o wneuthuriad da. • Cydweddu rhagorol rhwng y dodrefn a deunyddiau meddal sydd o ansawdd uchel ar eu pen eu hunain. • Gellid cael nodweddion ychwanegol e.e. clustogau gwasgar etc. • Gorchuddion ffenestri o ansawdd rhagorol sydd wedi eu gosod yn dda gyda digon o ddefnydd llaes. • Ffitiadau golau a gwresogi o ansawdd uchel sydd fel newydd.

Gwelyau

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys ansawdd a chyflwr pennau gwelyau neu bethau cyfatebol, gwaelodion gwelyau, matresi a fframiau.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Gwelyau a matresi o ansawdd derbyniol a allai gynnwys pen gwely.
2 Seren	• Gwelyau o ansawdd eithaf da ond gallai matresi fod yn denau a'r gwaelodion yn fas.
3 Seren	• Gwelyau cyfforddus o ansawdd da, matresi cynhaliol a gwaelodion cadarn. • Caiff gwaelodion gwelyau a phennau gwelyau, os ydynt wedi eu darparu, fod mewn arddull hŷn ond mewn cyflwr da.
4 Seren	• Matresi cadarn o ansawdd da iawn gyda gwaelod sbringiau o ansawdd da. • Gwaelodion gwelyau ac unrhyw bennau gwelyau mewn cyflwr da iawn.
5 Seren	• Gwely o ansawdd rhagorol e.e. matresi sbringiau a gwaelod o ansawdd uchel. • Os yw pennau gwelyau wedi eu gosod, gallent fod yn rhai cyfforddus iawn.

Cyngor

Os yw matresi'n pantio, dylid rhoi rhai yn eu lle. Mae'n ddoeth troi matresi o gwmpas ac wyneb i waered fel y byddant yn para'n hwy.

Ystafelloedd gwely oriel:

- Os yw eiddo'n lletya dau'n unig, gellir cyrraedd unrhyw radd. Rhaid hysbysebu'r ystafell wely oriel fel y cyfryw yn y daflen wybodaeth.
- Os yw'r eiddo'n lletya mwy na dau o westeion a bod ystafell wely oriel, rhaid hysbysebu hyn yn glir yn y daflen wybodaeth. Y radd uchaf y gellid ei chyrraedd yw Pedair Seren. Mae hynny oherwydd diffyg preifatrwydd, cuddio golau ac aflonyddu oherwydd sŵn.

Dillad gwely a chynfasau

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn ystyried ansawdd a chyflwr clustogau, carthenni plu, blancedi a chynfasau, diogelwyr clustogau a matresi, falansiau a chwrlidau. .
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Cynfasau glân a chwrlidau mewn cyflwr da o ansawdd derbyniol ar y gwelyau. • Dewis digonol o ddillad gwely, yn cynnwys digon o flancedi a/neu garthenni plu. • Os darperir dillad gwely ychwanegol, dylent fod yn lân ac yn ffres, ac wedi eu lapio os oes modd i'w cadw'n lân. • Gallai clustogau gynnwys llai o ddeunydd llenwi a bod yn llai cynhaliol a bod wedi eu gwneud o ffeibrau gwneuthuriedig yn bennaf.
2 Seren	• Gallai'r dillad gwely fod wedi eu defnyddio'n helaeth ond byddant yn dal i fod heb dyllau neu rwygiadau a dylent gydweddu. • Bydd y clustogau'n dewach.
3 Seren	• Gwelyau sydd wedi eu cyflwyno'n dda gyda digonedd o gynfasau a dillad gwely cydweddol o ansawdd da sydd wedi eu smwddio. • Gellir cael falansiau ar welyau difán. • Bydd clustogau a dillad gwely ychwanegol ar gael. • Dylai clustogau fod yn sylweddol.

4 Seren	• Cynfasau o ansawdd da iawn sy'n cydweddu â dillad gwely a'r ystafell. Gellir cynnig dewis o glustogau e.e. rhai plu neu ffeibrau gwag. • Gellir disgwyl cael diogelwyr clustogau ar y lefel hon. • Gallai falansiau fod o ansawdd uchel ac wedi eu pletio.
5 Seren	• Cynfasau sy'n cydweddu ac wedi eu golchi'n ffres. Dewis o ddillad gwely e.e. cwiltiau tew, neu gwrlidau a blancedi o ansawdd tebyg, neu garthenni plu â gradd tog addas. Y cwbl o ansawdd uchel ac yn cydweddu ag addurn yr ystafell wely a deunyddiau meddal eraill e.e. gwelyau sengl â charthenni plu dwbl • Byddid yn disgwyl cael gorchuddion matresi cwiltiog o ansawdd da a diogelwyr clustogau. • Gallai rhestr o glustogau gwahanol fod ar gael fel modd i gynnig dewis o ran trwch clustogau a'r deunydd llenwi. • Os defnyddir carthenni plu, dylid ystyried eu maint dros ben.

Arfer da o ran Cynaliadwyedd

Nid oes angen lapio blancedi; gellir dangos bod y blancedi yn ffres drwy glymu'r blancedi ar ôl eu plygu gyda rhuban y mae modd ei ailddefnyddio neu rwymyn arall, neu drwy eu plygu'n daclus. Fel arall, gellid eu gosod mewn bag amldro.

Goleuo, gwresogi ac awyru

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn ymwneud â'r ddarpariaeth o oleuadau a gwresogi a'u hansawdd ac a yw'n ddigonol ar gyfer maint yr ystafell ac anghenion e.e. darllen yn y gwely, coluro, defnyddio sychwr gwallt wrth fwrdd gwisgo. Dylid cael cydbwysedd rhwng golau naturiol a golau artiffisial lle y mae'n briodol. Mae angen i'r gwresogi fod yn ddigon ar gyfer maint yr ystafell a bodloni anghenion gwahanol westeion.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Goleuadau digonol sydd wedi eu lleoli'n briodol at ddibenion ymarferol. • Lefelau gwresogi sy'n addas i faint yr ystafell, efallai na fyddant yn awtomatig neu wedi eu pennu.
2 Seren	• Lefelau goleuo eithaf da. Watedd uwch na'r isafswm o 140 wat. • Gallai'r gwresogi fod yn awtomatig neu wedi ei reoli gan thermostat.
3 Seren	• Goleuadau wedi eu lleoli'n dda sy'n rhoi lefelau goleuo da y gellir eu rheoli'n rhwydd yn y nos. • Lefelau gwresogi effeithiol sy'n rhoi tymheredd unffurf yn gyffredinol.
4 Seren	• Lefelau goleuo da iawn gyda mynediad rhwydd at reolyddion yn enwedig ar gyfer goleuadau wrth ochr y gwely. • Gellir defnyddio gwahanol fathau o oleuadau e.e. goleuadau pared a lampau. • System wresogi awtomatig sydd wedi ei gosod yn iawn a allai fod wedi ei rheoli gan thermostat.
5 Seren	• Goleuadau o ansawdd rhagorol sydd wedi eu lleoli'n dda sy'n rhoi lefelau goleuo rhagorol at wahanol ddibenion, e.e. darllen ac wrth y bwrdd gwisgo. • Byddai'n ddymunol cael rheolydd i'r prif olau wrth y drws a'r gwely. • Rhaid bod modd i'r gwestai reoli lefelau gwresogi'n llawn ar bob adeg o'r dydd a'r nos. Mae'n bosibl bod rhai gwresogyddion stôr hŷn na fyddant yn ateb y gofyniad hwn. Byddai system aerdymheru'n caniatáu rheoli'r tymheredd ym mhob tymor.

Cyngor

Os oes rheolyddion cudd i lampau wrth ochr y gwely, gallai fod yn anodd dod o hyd iddynt yng nghanol y nos, yn yr un modd â mentyll lamp bach sydd â lle cyfyng i gyrraedd y switsh. Os oes llawer o lenni ar welyau, e.e. gwelyau pedwar postyn, gallent guddio golau o lamp wrth ochr y gwely, felly efallai y bydd angen bod yn fwy gofalus wrth ei lleoli.

Rhoddir marciau uwch os gofalwyd am ddarparu golau ym mhob rhan o'r ystafell lle y gallai fod angen, e.e. wrth y bwrdd gwisgo neu wrth y wardrob neu y tu mewn iddo.

Dylai gwifrau goleuadau wrth welyau bync gael eu gosod yn sownd er mwyn diogelwch.

Lle, cyfforddusrwydd a hwylustod

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn ystyried y defnydd o le a sut mae'r ystafell wedi ei threfnu i gynnig y cyfleuster a'r hwylustod mwyaf posibl i westeion. A oes rhaid symud dodrefn er mwyn defnyddio'r cyfleusterau? A oes rhywle i storio bagiau?
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Y gallu i symud o gwmpas yn weddol rwydd heb gyfyngu gormodol oherwydd trawstiau a nenfwd isel. • Efallai y bydd dodrefn yn cymryd y rhan fwyaf o'r lle yn yr ystafell ac yn ei gwneud yn llai defnyddiadwy. • Dylai ystafelloedd fod yn rhydd o aflonyddu gan sŵn allanol ac efallai y bydd angen darparu gwydro dwbl i sicrhau hyn mewn lleoliadau trefol.
2 Seren	• Lefelau cysur eithaf da ac amrywiaeth gyfyng o ddodrefn. • Cyfleusterau hawdd eu defnyddio a digon o le rhwng dodrefn.
3 Seren	• Digon o le i symud o gwmpas yn rhwydd a graddau da o gyfforddusrwydd. • Cyfleusterau hawdd eu defnyddio. • Y dodrefn wedi eu trefnu'n gyfleus i'w defnyddio'n ymarferol. • Mynediad da at y ddwy ochr i welyau dwbl.
4 Seren	• Y dodrefn wedi eu trefnu'n dda i ganiatáu'r defnydd mwyaf posibl o'r lle helaeth sydd ar gael. • Mynediad da iawn at y ddwy ochr i welyau dwbl.
5 Seren	• Dylai'r ystafell wely fod yn ddigon mawr i ganiatáu darparu'r holl ddodrefn sy'n briodol mewn ystafell wely gan roi mynediad rhwydd o hyd wrth ddefnyddio'r cyfleusterau hyn. • Man sydd ar gael i storio bagiau heb orlenwi'r ystafell a rhwystro mynediad. Nid oes rhaid iddo fod mewn ystafell wely. • Y gallu i ddefnyddio cyfleusterau'n rhwydd, e.e. mynediad at bwyntiau trydan etc. • Digonedd o le i fynd at ddwy ochr gwely dwbl. • Dim sŵn yn aflonyddu.

Cyngor

Wrth gynllunio ystafell wely, ystyriwch yn ofalus a fyddech yn cyfyngu ar y lle sydd gan westeion pe byddech yn rhoi gormod o welyau. Efallai y byddech, wrth gymryd llai o westeion yn gyffredinol, yn creu profiad o ansawdd gwell, gan y byddent yn gallu gwneud defnydd llawn o'r ystafelloedd yn gyfforddus.

Cofiwch na fydd gwesteion yn dadbacio bob amser a/neu gallai fod arnynt angen lle i storio eu cesys dillad.

Mae ystafelloedd gwely oriel mewn unedau i fwy na 2 o feddianwyr yn annhebygol o gael sgôr uchel yn yr adran hon oherwydd diffyg preifatrwydd a sŵn aflonyddol, golau ac arogleuon.

Dylid cael digon o socedi wedi eu lleoli'n strategol at bob diben posibl. Bydd hyn yn cynnwys pwyntiau trydan ar gyfer goleuadau, clociau larwm wrth ochr gwelyau ac un wrth ddrych i'w ddefnyddio i redeg sychwr gwallt etc. Dylai'r rhain fod yn hawdd eu cyrraedd ac yn rhai sy'n dileu'r angen am blygiau addasu a cheblau estyniad, a allai fod yn berygl i iechyd.

Dylai gwifrau goleuadau wrth welyau bync gael eu gosod yn sownd er mwyn diogelwch.

Arfer da o ran Hygyrchedd

Os nad ydynt yn cael ei darparu, dylai clustogau a dillad gwely heb blu fod ar gael ar gais y gwesteion.

Mae dodrefn symudol a gwelyau sengl y mae modd eu haddasu yn wely dwbl yn rhoi mwy o hyblygrwydd wrth drefnu ystafell sy'n cael ei defnyddio ar dro fel llety ar gyfer gofalwyr sy'n teithio gydag unigolion anabl neu er mwyn bod yn addas i berson â nam ar y golwg i symud o gwmpas yr ystafell.

Ceisiwch osgoi gosod carpedi trwchus a allai achosi i bobl faglu neu ei gwneud hi'n anodd i bobl mewn cadeiriau olwyn i symud.

Sicrhewch bod blociau ar gael i addasu uchder gwelyau.

Sicrhewch bod digon o le mewn ystafelloedd gwely i gerdded o gwmpas heb fwrw i mewn i ddodrefn. A all eich gwesteion gyrraedd y ffenestri a'r llenni, ac a ydynt yn hawdd i'w hagor a'u cau?

Sicrhewch bod modd addasu lefel y golau drwy ddefnyddio switsh pylu a/neu sicrhewch bod lampau ymyl gwely/bwrdd gwisgo ychwanegol ar gael.

I helpu pobl â nam ar eu golwg, ystyriwch baentio fframiau drysau mewn lliw sy'n cyferbynnu â lliw y wal. Osgowch orffeniadau sgleiniog iawn.

Sicrhewch bod pob gwestai yn gwybod sut i gael is-deitlau ar y teledu drwy ddefnyddio'r teclyn rheoli o bell. Bydd hyn o fudd nid yn unig i westeion â nam ar eu clyw ond hefyd gwesteion sy'n siarad iaith dramor.

Dylid darparu ystafell wely ar y llawr gwaelod lle bo hynny'n bosibl.

Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau

Addurno

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cyfeirio at ansawdd a chyflwr addurn y waliau a'r nenfydau, gan gynnwys teils, growt a defnyddiau selio.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Addurn ymarferol gydag ychydig bach o gydweddu.
2 Seren	• Yr addurn yn eithaf da o ran ansawdd a chyflwr ond efallai y bydd rhai arwyddion o draul.
3 Seren	• Addurn ymarferol wedi ei gadw'n dda; deunydd gorchuddio'r waliau a'r nenfwd wedi ei osod yn dda. Y cwbl mewn cyflwr da.
4 Seren	• Efallai y bydd wedi ei hailaddurno'n ddiweddar ond nid yw o'r ansawdd gorau neu gallai fod o ansawdd rhagorol gydag ychydig bach o arwyddion o oed
5 Seren	• Dyluniad mewnol rhagorol. • Pob agwedd ar yr addurno wedi ei gorffen yn broffesiynol. • Gorffeniad o'r ansawdd uchaf i'r waliau; teils, growt a deunydd selio o ansawdd uchel wedi eu gosod yn dda. • Defnydd deniadol o ychwanegiadau addurnol, lle y mae'n briodol.

Cyngor

Nid oes rhaid gosod teils (neu ddeunydd cyfatebol) ar y waliau i gyd, ond dylid teilsio'r mannau sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dŵr.

Cadwch y growt a'r deunydd selio mewn cyflwr da fel na fyddant yn colli eu lliw ac yn mynd yn ddiolwg. Argymhellir defnyddio deunydd selio sy'n rhoi gwarant dymor hir yn erbyn llwydni.

Os oes modd, dylid cau peipiau i mewn er mwyn gallu glanhau'n rhwydd ac am resymau esthetig.

Lloriau

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys ansawdd a chyflwr y carped, llawr feinyl, llawr pren, pren haenog a theils seramig. Mae bob amser yn ddoeth gosod llawr gwrthlithro mewn ystafelloedd ymolchi.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Llawr gwrthlithro ymarferol sy'n ddigon cyfforddus dan draed.
2 Seren	• Llawr o ansawdd eithaf da. Ni ddylai teils fod â llawer o ddifrod iddynt.
3 Seren	• Llawr o ansawdd da sydd mewn cyflwr da ac yn gyfforddus dan draed.
4 Seren	• Llawr o ansawdd uchel ond nid yn newydd o reidrwydd. Rhai arwyddion o draul neu ansawdd mwy canolig sydd fel newydd.
5 Seren	• Llawr o ansawdd rhagorol, mewn cyflwr rhagorol. Dim arwyddion gwirioneddol o draul ac wedi ei osod yn broffesiynol.

Cyngor

Er bod carped yn gynnes dan draed, mae'n bosibl na fydd bob amser yn orau o ran hylendid a gellir cael difrod oherwydd dŵr hefyd.

Gosodion, ffitiadau, offer ymolchfa

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys y tapiau, plygiau, pennau cawod, drychau, sgrîn/cyrten cawod, rheiliau tyweli, pwyntiau trydan i rasel, ffitiadau goleuo a gwresogi, ffaniau echdynnu, offer ymolchfa (bath, cawod, toiled, basn a bidet), tyweli, llenni a bleindiau.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Ffitiadau o ansawdd derbyniol. • Gorchudd ffenestr priodol wedi ei osod yn gywir. • Gwasgedd dŵr digonol a draenio boddhaol ar gyfer defnyddio'r cyfleusterau. • Wyneb gwastad ar gael i osod eiddo gwesteion.
2 Seren	• Ffitiadau o ansawdd eithaf da ond gallent fod wedi dyddio neu dreulio. • Efallai y bydd baddonau haearn bwrw wedi colli eu sglein, ond mae'r enamel yn dal i fod mewn cyflwr da.
3 Seren	• Offer solet o ansawdd da sy'n cydweddu ac wedi eu gosod yn dda. • Yr offer ymolchfa a'r bath neu waelod cawod yn cydweddu. • Gorchudd ffenestr sydd wedi ei osod yn dda sy'n ddigon hir a llydan i'w dynnu ar draws y ffenestr gyfan. • Lle helaeth ar silffoedd i osod eiddo'r gwesteion. • Pwynt trydan i rasel a golau wrth ymyl drych.
4 Seren	• Ffitiadau o ansawdd uchel yn gyffredinol ym mhob man, dim ond ychydig o draul. Baddonau o faint da. Sgrîn gawod neu len drwm o ansawdd da. • Holl gyfleusterau'r ystafell ymolchi mewn cyflwr da, dim craciau, craciau mân neu orffeniadau pŵl.
5 Seren	• Darparu bath a chawod gyda gosodion a ffitiadau o ansawdd uchel, e.e. ciwbiglau cawod neu sgriniau cawod, a chawodydd wedi eu rheoli gan thermostat. Basn ymolchi o faint llawn yn yr ystafell wely neu ystafell ymolchi en suite. Offer hawdd eu defnyddio. • Gorchudd ffenestr o ansawdd rhagorol wedi ei osod yn dda sy'n ddigon llaes a llydan. • Digonedd o le ar silffoedd cyfleus ar gyfer eiddo gwesteion.

Cyngor

Wrth asesu ffitiadau ystafell ymolchi, ystyrir eu hansawdd a'u cyflwr hanfodol. Bydd rheiliau tyweli neu silffoedd plastig tila yn cael llai o bwyntiau na ffitiadau pren, metel neu seramig o ansawdd da. Fel arfer bydd ffitiadau sy'n cydweddu neu'n cyd-fynd yn cael sgôr uwch na chymysgedd o wahanol arddulliau.

Bydd sgrîn gawod gadarn sydd wedi ei gosod yn dda yn cael sgôr uwch na llen blastig denau sy'n tueddu i lynu wrth westeion wrth iddynt gael cawod. Os yw sgrîn gawod wedi ei gosod yn wael neu mewn lle anhwylus fel ei bod yn anodd cyrraedd y tapiau neu reolyddion cawod, rhoddir marc llai. Byddai bath haearn bwrw cadarn yn cael sgôr uwch na bath plastig rhad sy'n gwichian ac yn symud. Os yw wyneb bath yn bŵl, wedi ei grafu neu ei staenio, bydd yn cael sgôr is.

Rhoddir canmoliaeth yn yr asesiad am ddarparu bachau o ansawdd da ar gefn drysau, silffoedd neu wynebau eraill sydd mewn lle cyfleus ar gyfer pethau ymolchi ac offer. Rhaid cofio darparu digon o le ar silffoedd a rheiliau tyweli os lletyir niferoedd mwy. Gellir darparu lle ychwanegol ar reiliau tyweli mewn ystafelloedd gwely. Dylid gosod drychau fel eu bod ar uchder addas i'r rhan fwyaf o westeion o wahanol daldra.

Os yw cawod wedi ei gosod uwchben bath, mae'n well darparu silff/dysgl dal sebon ar uchder rhywun ar ei sefyll yn ogystal ag un ar uchder rhywun sy'n eistedd yn y bath.

Ystyriwch faint ciwbiglau cawod – a oes digon o le ynddynt i westeion mwy?

Goleuo, gwresogi ac awyru

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn ymwneud â'r ddarpariaeth o oleuadau a gwresogi a'u hansawdd ac a yw'n ddigon ar gyfer maint ystafelloedd ymolchi. Os nad oes digon o wresogi a/neu awyru, ceir anwedd. Dylid cael cydbwysedd rhwng golau naturiol a golau artiffisial lle y mae'n briodol.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Lefelau gwresogi sy'n addas i'r maint. Dylent fod ar lefelau penodedig er mwyn diogelwch. • Digon o oleuadau wedi eu lleoli'n briodol i'w defnyddio. • Efallai mai dim ond ffenestr a fydd wedi ei darparu.
2 Seren	• Gwresogi i gynnig lefel dda o wresogi a gallai fod wedi ei reoli'n awtomatig. • Lefelau goleuo eithaf da. Watedd uwch na'r isafswm (140 wat).
3 Seren	• Lefelau gwresogi effeithiol yn rhoi tymheredd unffurf yn gyffredinol. • Goleuadau wedi eu lleoli'n dda sy'n goleuo'r wyneb yn dda.
4 Seren	• System wresogi dan reolaeth thermostat wedi ei gosod yn iawn. • Fel arfer byddid yn disgwyl cael ffan echdynnu a ffenestr sy'n agor. • Lefelau golau da iawn, yn enwedig uwchben neu wrth ymyl drych. Gellid cael gwahanol fathau o oleuadau.
5 Seren	• Lefelau gwresogi y gellir eu rheoli'n llawn bob amser. Efallai na fydd gwresogyddion stôr yn ateb y gofyniad hwn. • Ffan echdynnu wedi ei gosod yn ogystal â ffenestr. • Goleuadau o ansawdd rhagorol wedi eu lleoli'n dda gan roi lefelau goleuo rhagorol.

Cyngor

Mae'n bwysig cael goleuadau yn y man priodol. Dylai'r lle o gwmpas y basn ymolchi a'r drych fod wedi ei oleuo'n dda. Os yw siâp yr ystafell ymolchi'n anarferol, dylid ystyried lleoliadau'r goleuadau'n ofalus. Mae goleuadau uwchben y bath a/neu gawod yn ddefnyddiol iawn ac yn ei wneud yn fwy diogel.

Er mwyn ennill y marciau uchaf, dylai'r gwresogi fod yn awtomatig ac wedi ei reoli gan thermostat.

Ni ellir dibynnu ar westeion i agor ffenestri ystafelloedd ymolchi, yn enwedig mewn tywydd oer, felly mae'n well darparu ffan echdynnu hefyd. Mae anwedd a llwydni'n digwydd oherwydd diffyg gwresogi ac awyru, a thrwy ddarparu gwresogi cefndir a ffan echdynnu bydd yn haws atal hyn, yn enwedig os yw'r ffan yn cynnwys cyfarpar mesur a rheoli lleithder (humidistat) (fel y bydd y ffan yn cychwyn wrth i'r lleithder gynyddu).

Tyweli a phethau ymolchi

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys yr holl dyweli personol ac unrhyw bethau ymolchi a gyflenwir i'w defnyddio gan westeion. Gallai hyn amrywio o far sebon i ddewis llawn o bethau ymolchi ac eitemau ychwanegol fel capiau cawod, peli gwlân cotwm, ffyn gwlân cotwm etc.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Nid yw matiau papur yn dderbyniol. • Efallai y bydd y tyweli'n fach ac yn denau, ond dylent fod mewn cyflwr defnyddiadwy er hynny. • Dylid rhoi sylw penodol i lendid a hylendid arllwyswyr sebon hylifol os ydynt wedi eu darparu.
2 Seren	• Fel y rhai ar gyfer Un Seren.
3 Seren	• Tyweli o faint da sy'n cydweddu ac sy'n dda o ran ansawdd a chyflwr. • Darparu sebon, siampŵ a jel bath/cawod o ansawdd da. • Mae pethau ymolchi at raid ar gael fel brws dannedd a rasel dafladwy, y gellir codi tâl amdanynt.
4 Seren	• Dewis da o dyweli o ansawdd da iawn sy'n feddal ac yn sugno dŵr a dewis da o bethau ymolchi o ansawdd da i westeion.
5 Seren	• Dewis da o dyweli sy'n cynnwys llieiniau bath, gynau a chlwt ymolchi sy'n rhagorol o ran eu hansawdd a'u cyflwr. • Dewis rhagorol o bethau ymolchi moethus i westeion (er enghraifft, sebon dwylo, sebon bath, siampŵ, jeliau, hufen i'r corff, hancesi papur etc).

Lle, cyfforddusrwydd a hwylustod

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn ystyried y defnydd o le a sut mae cynllun yr ystafell yn cynnig y cyfleuster a'r hwylustod mwyaf posibl i alluogi'r gwestai i symud o gwmpas yn rhwydd; gyda diogelwch yn brif ystyriaeth. Mae'n debygol y bydd hwylustod y defnydd ohoni'n llai os bydd gormod o westeion yn rhannu un ystafell ymolchi, yn enwedig os yw'r toiled o fewn yr ystafell ymolchi neu os mai dim ond un bath sydd wedi ei ddarparu.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Digon o le a chynllun ystafell sy'n caniatáu defnydd ymarferol o'r holl gyfleusterau. • Y sŵn lleiaf posibl o'r peipiau.
2 Seren	• Lefelau cyfforddusrwydd eithaf da ac amrywiaeth gyfyngedig o ffitiadau. Cyfleusterau'n hawdd eu defnyddio. • Mynediad cyfleus at y bath, cawod a thoiled.
3 Seren	• Digon o le i ganiatáu mynediad rhwydd at y cyfleusterau a defnydd ohonynt.
4 Seren	• Y cynllun ystafell ar gyfer offer ymolchfa a ffitiadau'n dda er mwyn ei gwneud yn fwyaf cyfleus ac yn hawsaf eu defnyddio.
5 Seren	• Lle helaeth i ganiatáu symud o gwmpas yn rhwydd a mynediad hawdd at gyfleusterau. • Cynllun ystafell cyfleus gyda digonedd o le ar gael.

Cyngor

Ystyriwch nifer y gwesteion, hyd eu harhosiad a'r pethau ymolchi ar eu cyfer mewn cysylltiad â'r lle sydd ar gael ar silffoedd – a yw'n ddigon i ateb y diben?

Arfer da o ran Hygyrchedd

Gall darparu offer fel seddi ar gyfer bath, seddi toiled y mae modd addasu eu huchder a chadeiriau cawodydd fod o fudd i lawer o westeion, fel y gall rheiliau cymorth ar gyfer y toiled a'r bath/cawod.

I helpu pobl â nam ar eu golwg, dylai'r toiled, y sinc a'r bath fod mewn lliw sy'n cyferbynnu â waliau a lloriau'r ystafell ymolchi, a dylai'r tywelion hefyd gyferbynnu mewn rhyw ffordd. Ystyriwch hefyd fframiau drysau mewn lliw sy'n cyferbynnu.

Wrth ailwampio eich ystafell ymolchi, dylid gosod falf gymysgu ar bob un o ffitiadau'r cyflenwad dŵr twym, a fydd yn sicrhau na all tymheredd y dŵr godi'n uwch na 41C er mwyn osgoi llosgi.

Darparwch hefyd dapiau lifer ac atodion â lifer wrth y sinc ymolchi ac, yn ddelfrydol, yn y gawod hefyd.

Er budd yr holl bobl a fydd yn ei defnyddio, mae'n bwysig i loriau'r ystafell ymolchi fod yn rhai gwrth-lithro.

Arfer Da o ran Cynaliadwyedd

Gellir defnyddio dyfeisiau arbed dŵr fel "Hippos" mewn sestonau toiledau a darparu cyfleusterau cawod a all helpu i gwtogi ar y dŵr a ddefnyddir.

I ddefnyddio llai o ddeunydd pacio, ystyriwch ddarparu sebon hylifol i westeion mewn arllwyswyr pwrpasol yn hytrach na bariau wedi'i lapio.

Cegin

Addurniadau

Arweiniad ar Ansawdd	Wrth asesu'r gwaith addurno ar waliau, nenfydau a gwaith coed, ystyrir ansawdd gorffeniadau'r waliau, eu cyflwr a'r dull gosod. Mae hyn yn cynnwys cefnfyrddau, teils, growt a deunydd selio. Asesir y ddarpariaeth o luniau a phrintiau a'r holl addurniadau wal ynghyd â'u hansawdd yma hefyd. Mewn cegin, mae hylendid o'r pwys mwyaf, a bydd yn rhaid rhoi rhywfaint o ystyriaeth i addasrwydd y defnyddiau a'r gorffeniadau. Ni roddir ystyriaeth i chwaeth bersonol yr asesydd o ran arddull neu ddyluniad.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Addurn ymarferol gan gynnwys waliau a nenfydau. • Y lleiaf posibl o farciau, olion sblasio, saim neu arwyddion eraill o goginio.
2 Seren	• Addurn o ansawdd da sydd mewn cyflwr da. Efallai y bydd rhai arwyddion o draul arno.
3 Seren	• Addurn ymarferol wedi ei gadw'n dda. • Yn cydweddu'n dda gyda gorffeniadau addas, hirbarhaus fel teils mewn mannau gweithio. • Dylai'r holl addurn fod wedi ei osod at safon dda.
4 Seren	• Gallai fod wedi ei hailaddurno'n ddiweddar ond heb fod o'r ansawdd gorau neu gallai fod o ansawdd rhagorol gydag ychydig o ôl heneiddio.
5 Seren	• Addurn o safon ragorol, wedi ei osod yn broffesiynol. • Dyluniad mewnol sy'n cydweddu. • Wynebau gwydn iawn, sy'n dangos fawr ddim traul. • Growt yn cael ei gadw fel newydd mewn mannau sydd wedi eu teilio.

Cyngor

Defnyddiwch ddeunydd sy'n addas i'r gegin e.e. paent i geginau ac ystafelloedd ymolchi a fydd yn gwrthsefyll staeniau a lleithder. Ffefrir cefnfyrddau o ryw fath, yn enwedig wrth boptai, sinciau ac wrth gefn wynebau gweithio.

Lloriau

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys ansawdd a chyflwr carpedi, lloriau feinyl, a lloriau pren, pren haenog a theils seramig. Ystyrir ansawdd y gosod, yn enwedig o gwmpas unedau a nwyddau gwynion.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Llawr sy'n ffitio'n dda. • Efallai y bydd rhai arwyddion traul ar y llawr. Dylai fod wedi ei osod yn broffesiynol.
2 Seren	• Llawr o ansawdd eithaf da, heb rwygiadau, staeniau neu losgiadau.
3 Seren	• Wedi ei gadw'n dda iawn hyd yn oed mewn mannau lle mae llawer o fynd a dod. • Deunydd llawr gwydn iawn. • Growt glân rhwng teils. • Lloriau pren mewn cyflwr da.
4 Seren	• Gallai fod yn ddeunydd llawr o ansawdd uchel, ond nid yn newydd o reidrwydd ac efallai y bydd rhai arwyddion o draul neu gallai fod o ansawdd mwy canolig ond ei fod fel newydd.
5 Seren	• Llawr o'r ansawdd gorau mewn cyflwr rhagorol.

Dodrefn a Ffitiadau

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys ansawdd a chyflwr yr holl ffitiadau yn y gegin gan gynnwys unedau a chypyrddau cegin, wynebau gweithio, llenni a bleindiau, ffitiadau goleuo a gwresogi, ffaniau echdynnu ac unrhyw ddodrefn sy'n sefyll ar eu pennau eu hun fel bwrdd a chadeiriau cegin.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Gallai wynebau gweithio a lleoedd storio fod yn gyfyngedig ond yn ddigonol, gydag o leiaf un cwpwrdd neu set o silffoedd i storio bwyd. • Bydd yr holl wynebau mewn cyflwr da a bydd drysau cypyrddau'n gweithio'n iawn.
2 Seren	• Digon o wynebau gweithio a chypyrddau at ddefnydd ymarferol. • Ansawdd yr unedau'n eithaf da.
3 Seren	• Mwy na digon o le mewn cypyrddau ac ar wynebau gweithio. • Unedau o ansawdd da sy'n cydweddu ac wedi eu gosod yn dda. • Os yw'r lle bwyta'n rhan o'r gegin, bydd y byrddau a chadeiriau o ansawdd da gyda phadin ar y seddau, os yw'n briodol. • Darpariaeth i'r nifer mwyaf o westeion fwyta'n gyfforddus..
4 Seren	• Wynebau gweithio helaeth iawn heb offer neu eitemau eraill arnynt. • Unedau o ansawdd da iawn sydd wedi eu cadw'n dda. • Digonedd o le i storio bwyd etc y gwesteion.

5 Seren	• Wynebau gweithio helaeth dros ben â gorffeniad o ansawdd uchel, digonedd o leoedd storio gan gynnwys unedau wedi eu gosod ar y llawr a'r waliau. • Unedau wedi eu gosod yn broffesiynol sydd o ansawdd rhagorol. • Os yw'r lle bwyta'n rhan o'r gegin, bydd y byrddau a chadeiriau o ansawdd rhagorol gyda phadin ar y seddau, os yw'n briodol.

Goleuo, gwresogi ac awyru

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn ymwneud â'r ddarpariaeth o oleuo a gwresogi a'i hansawdd ac a yw'n ddigon ar gyfer maint y gegin. Dylid cael cydbwysedd rhwng golau naturiol a golau artiffisial lle mae'n briodol a dylai fod yn ddigon i ganiatáu defnydd diogel o'r popty a'r wynebau gweithio. Bydd diffyg gwresogi a/neu awyru digonol yn achosi anwedd. Mae awyru'n agwedd bwysig mewn ceginau a dylid darparu dull o gyfnewid aer i sicrhau bod stêm ac arogleuon coginio yn cael eu tynnu yn enwedig mewn unedau sydd â chynllun agored. Mae ffenestr sy'n agor, os yw'n gweithio'n foddhaol, yn gallu rhoi digon o awyru.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Lefelau ymarferol o oleuo artiffisial a/neu naturiol er mwyn diogelwch. • Caiff y gwresogi fod yn wresogi 'benthyg' os oes cynllun agored, ond bydd ar lefel foddhaol, er hynny. • Awyru digonol, drwy agor ffenestri efallai.
2 Seren	• Lefelau gwresogi eithaf da. Watedd uwch na'r isafswm o 140 wat. • Gwresogi i gynnig lefel dda o gynhesrwydd a gallai fod wedi ei reoli'n awtomatig.
3 Seren	• Goleuo da'n gyffredinol a gorau oll os bydd goleuadau'n union uwchben mannau paratoi bwyd a choginio. • Bydd awyru da a gallai gynnwys awyru gyredig.
4 Seren	• Lefelau goleuo da iawn. • Gellid cael gwahanol fathau o oleuadau e.e. goleuadau o dan unedau yn ogystal â'r prif oleuadau. • System wresogi wedi ei gosod yn briodol, wedi ei rheoli gan thermostat. • Gellid disgwyl cael ffaniau echdynnu yn ogystal â ffenestri sy'n agor.
5 Seren	• Goleuo rhagorol ym mhob man. • Gwresogi y gellir ei reoli'n hawdd e.e. falf thermostatig wedi ei gosod ar reiddiaduron. • Gallai'r dull echdynnu aer gyredig gynnwys cyfarpar mesur a rheoli lleithder (humidistat).

Cyngor

Ni ellir dibynnu ar westeion i agor ffenestri cegin, yn enwedig mewn tywydd oer, felly mae'n well darparu ffan echdynnu'n ogystal. Mae anwedd a llwydni'n cael eu hachosi gan ddiffyg gwresogi ac awyru a bydd darparu gwres cefndir a ffan echdynnu o gymorth i ddatrys hyn, yn enwedig os yw'r ffan yn cynnwys humidistat (gan fod y ffan yn dechrau gweithio wrth i'r lleithder gynyddu).

Cyfarpar trydanol/nwy

Arweiniad ar Ansawdd	Bydd yr holl gyfarpar trydanol a nwy a ddarparwyd yn y gegin yn cael eu hasesu yn yr adran hon gan gynnwys poptai, hobiau, oergelloedd etc. Ystyrir yr holl gyfarpar trydanol bach fel cymysgwyr bwyd a chwisgiau llaw etc yma hefyd. Bydd cyfarpar fel peiriannau golchi, rhewgelloedd etc., nad ydynt wedi eu lleoli yn y gegin ond mewn rhan arall o'r eiddo fel ystafell aml-bwrpas neu yn adeilad y perchennog, yn cael eu cynnwys yma.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Dim darpariaeth neu'r ddarpariaeth leiaf ar ben y gofyniad sylfaenol. • Er y gallai rhai eitemau fod yn weddol hen, dylai'r cwbl weithio a bod mewn cyflwr da.
2 Seren	• Efallai y bydd rhai eitemau cyfarpar ychwanegol wedi eu darparu, ond gallent fod ag arwyddion o draul neu fod wedi dyddio.
3 Seren	• Yr holl gyfarpar mewn cyflwr da ac wedi ei gadw'n dda iawn, e.e. yr eitemau heb arwyddion o ddifrod, marciau, etc.
4 Seren	• Gallent fod o ansawdd rhagorol, ond nid mewn cyflwr fel newydd. Amrywiaeth dda iawn o gyfarpar wedi ei darparu.
5 Seren	• Dewis eang o eitemau o ansawdd rhagorol a allai gynnwys e.e. proseswyr bwyd etc. • Gallai gynnwys popty deuddarn er mwyn hwylustod. • Yr holl gyfarpar o'r safon uchaf.

Llestri, cytleri a llestri gwydr

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn cynnwys ansawdd, cyflwr ac amrywiaeth y llestri, cytleri a llestri gwydr i ddibenion bwyta. Nid yw'n cynnwys llestri coginio gwydr, er enghraifft.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Y ddarpariaeth leiaf a honno o ansawdd derbyniol. • Gallai'r llestri fod o ansawdd ymarferol trwm, y cwbl â'r un patrwm. • Gallai'r cytleri fod yn denau, o ansawdd isel a heb gydweddu. • Dewis bach o wydrau. Efallai na fyddant yn cydweddu.
2 Seren	• Ni ddylai'r llestri fod ag arwyddion o dolcio, staeniau neu graciau mân a dylent gydweddu. • Gallai'r cytleri fod yn ysgafn ond bydd y cyfan yn cydweddu.
3 Seren	• Cytleri o fathau trymach sydd heb unrhyw arwyddion o draul. • Cyflenwad o gytleri, llestri a llestri gwydr sy'n fwy na digon ar gyfer nifer y gwesteion. Dewis rhesymol o lestri gwydr o ansawdd da.
4 Seren	• Cytleri o ansawdd da iawn a'r cyfan yn cydweddu.
5 Seren	• Rhai o ansawdd da iawn sydd mewn cyflwr fel newydd neu o ansawdd rhagorol heb fod mewn cyflwr perffaith.

Llestri cegin, padellau ac offer

Arweiniad ar Ansawdd	Yn yr adran hon ystyrir ansawdd, amrywiaeth a chyflwr padellau, hambyrddau pobi, powlenni a dysglau coginio ac arlwyo yn ogystal ag offer. Ar y lefel isaf, dylai'r dewis a'r ansawdd fod yn gymesur â nifer y gwesteion h.y. bydd angen padellau a dysglau arlwyo etc. mwy ar gyfer niferoedd mwy.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Dewis cyfyngedig o badellau o ansawdd derbyniol. Bydd yr holl handlenni'n ddiogel a'r caeadau'n ffitio'n dda. • Dewis bach iawn o offer. Efallai y bydd rhai eitemau'n ysgafn neu o ansawdd mwy sylfaenol. Efallai na fydd setiau sy'n cydweddu.
2 Seren	• Padellau o ansawdd trymach. • Efallai y bydd dewis eang o offer, ond ni fydd y cyfan â dyluniad tebyg.
3 Seren	• Padellau o amryw o feintiau, y cyfan yn solet â phwysau da. • Dim hen offer plastig wedi eu camffurfio. • Dewis eang o gyllyll, llwyau pren, etc.
4 Seren	• Efallai y bydd y padellau o ansawdd uchel ond yn dangos arwyddion o oed neu draul neu gallent fod yn newydd/fel newydd ond o ansawdd ysgafnach. • Mwy o ddewis o offer a llestri coginio ac iddynt wahanol feintiau a dibenion.
5 Seren	• Y cyfan o'r llestri coginio a phadellau o'r safon ansawdd orau. Dylai'r dewis o badellau fod yn fwy na'r isafswm. • Dewis eang o eitemau ychwanegol, y cwbl yn cydweddu, e.e. woc gwasg garlleg, clorian gegin, peth gwneud sudd ffrwythau, gard sblasio, llwy agennog, etc.

Lle, cyfforddusrwydd a hwylustod

Arweiniad ar Ansawdd	Bydd yr adran hon yn delio â dyluniad a chynllun y gegin gan ystyried y lle sydd ar gael, sy'n agwedd bwysig. Gellid cael gormod o le am fod hynny'n amharu ar y gallu i ddefnyddio'r gegin, e.e. mae'r cynllun yn golygu nad oes modd ei defnyddio'n rhwydd. Ystyrir y nifer mwyaf sy'n meddiannu'r uned a'r lle yn y gegin ar gyfer y nifer hwnnw yn enwedig os yw'n man bwyta yn y gegin, a diogelwch fydd y brif ystyriaeth.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Lle cyfyngedig ym mhob man, gan gynnwys mannau storio, wynebau gweithio a lle rhydd. Digon o le i olchi llestri a'u gadael i sychu.
2 Seren	• Lle a chynllun digonol sy'n caniatáu defnyddio'r cyfleusterau'n ymarferol. • Mynediad hwylus at yr oergell, popty / ffwrn a hob. • Tystiolaeth o fwy o ystyriaeth i'r gwahanol dasgau a gyflawnir mewn cegin.
3 Seren	• Digon o le i ganiatáu mynediad rhwydd at y cyfleusterau a defnydd ohonynt. • Lle helaeth i storio bwydydd.

Lle, cyfforddusrwydd a hwylustod (parhad)

4 Seren	• Da iawn o ran hwylustod gyda digon o le, yn enwedig o gwmpas byrddau bwyta os ydynt yn y gegin. • Mynediad da iawn at yr holl unedau ac ystyriaeth wedi ei rhoi i'r triongl gweithio – popty, oergell a sinc. • Byddid yn disgwyl gweld lle ychwanegol mewn unedau mwy lle gallai mwy nag un person ddefnyddio'r gegin ar yr un pryd.
5 Seren	• Digonedd o le i ganiatáu symud o gwmpas yn rhwydd a mynediad hwylus at y cyfleusterau. • Cynllun cyfleus iawn i'r ystafell gyda digon o le. • Dylid cael lle helaeth iawn i storio bwyd etc.

Arfer Da o ran Hygyrchedd

Dylid darparu tegellau heb wifrau, ac amrywiaeth o gwpanau/mygiau yfed – bydd hyn o gymorth i'r sawl sy'n cael trafferth dal cwpan.

Er mwyn helpu pobl mewn cadeiriau olwyn, dylid sicrhau bod modd cyrraedd gymaint â phosibl o'r arwynebedd gweithio ar eich eistedd, ee yr hob, yr oergell a'r popty.

Gosodwch ddolenni drysau cypyrddau ar ymyl waelod y drws.

Darparwch gyfarwyddiadau mewn print bras ar gyfer defnyddio offer trydanol, ee peiriannau golchi a sychu dillad.

Bydd llestri sy'n cyferbynnu â lliw y lliain bwrdd neu wyneb y bwrdd yn helpu gwesteion â nam ar eu golwg.

Arfer Da o ran Cynaliadwyedd

Atgoffwch eich gwesteion am eich ymrwymiad rheoli i arbed ynni drwy ofyn iddynt beidio â defnyddio peiriannau golchi llestri tan eu bod yn llawn. Gellir gwneud hyn wrth ddweud wrth westeion am drefniadau'r awdurdod lleol o ran ailgylchu sy'n berthnasol i'r math hwn o eiddo, a'r hyn y gallant ei wneud i'ch helpu i gydymffurfio a hynny.

Wrth brynu nwyddau gwynion, ceisiwch brynu rhai â label yr UE yn nodi gradd effeithlonrwydd ynni A neu B a phan fyddwch yn darparu cynnyrch glanhau, prynwch y rhai sy'n cael eu cydnabod fel rhai sy'n ecogyfeillgar.

Cyfleusterau ychwanegol

Y rhain yw cyfleusterau y gellir eu darparu fel rhan o'r cyfleusterau sydd ar gael i westeion mewn fflatiau. Maent yn ddewisol, ond os cânt eu darparu, ystyrir yr ansawdd, y cyflwyniad a'r hwylustod wrth eu defnyddio wrth asesu'r sgôr ansawdd. Os na fyddant wedi eu darparu, ni fydd hynny'n amharu ar y radd a ddyfernir.

Golchdy

Arweiniad ar Ansawdd	Mae hyn yn berthnasol lle mae ystafell olchi benodol wedi ei lleoli y tu allan i'r adeilad (gan gynnwys ystafell olchi'r perchennog) sy'n cynnwys cyfarpar ar gyfer golchi, sychu a smwddio dillad; gallai gael ei rhannu â'r perchennog neu ag unedau hunanddarpar eraill.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Bydd yr holl gyfarpar yn gweithio. • Amgylchedd gweithio ymarferol. • Cyfarwyddiadau syml ar gyfer defnyddio cyfarpar. • Gallai'r oriau agor fod yn gyfyngedig.
2 Seren	• Gellid nodi rhywfaint o dystiolaeth o draul. • Gorffeniadau'r waliau a'r lloriau o safon resymol. • Cyfarpar o ansawdd sy'n debycach i rai domestig. • Gallai'r cyfarwyddiadau fod yn fwy manwl.

3 Seren	• Digon o gyfarpar i'w ddefnyddio'n hwylus. • Y fangre wedi ei haddurno'n dda. Gwaith cadw tŷ da a dim mannau storio diolwg. • Gallai'r cyfarpar fod o safon broffesiynol neu ddomestig. • Yr oriau agor yn briodol ar gyfer y math o gyfleuster a'i weithrediadau e.e. maint ac arddull.
4 Seren	• Darpariaeth ddigonol a da iawn o gyfarpar a'r niferoedd ohono'n fwy na nifer yr unedau. • Gallai gynnwys lle dan do i adael cotiau ac esgidiau i sychu. • Gallai fod â mynediad 24 awr – a allai fod ar gael drwy ddefnyddio allwedd etc neu oriau agor estynedig i fodloni anghenion cwsmeriaid.
5 Seren	• Mangre gyda digon o gyfarpar wedi ei haddurno'n dda a safon uchel o lendid i'w gweld. • Cynllun da sy'n ystyriol o'r angen i allu defnyddio'r holl gyfarpar yn hwylus. • Darpariaeth o gyfarpar o ansawdd rhagorol a chyfarwyddiadau clir ar gyfer ei ddefnyddio. Gallai'r dewis o gyfarpar gynnwys y canlynol: peiriant golchi, taflwr sychu, troellwr sychu, cyfleusterau smwddio, cyfleusterau golchi â llaw etc. • Mynediad 24 awr – a allai fod drwy ddefnyddio allwedd etc.

Arfer Da o ran Hygyrchedd

Gellir gwella mynediad drwy ddarparu mynedfa gwastad/â ramp, a lled o 80cm o leiaf i fynd drwy'r drws a deunydd llawr a glanhawyr gwrth-lithro.

Arfer Da o ran Cynaliadwyedd

Wrth brynu peiriant golchi neu sychu dillad, ceisiwch brynu cyfarpar â graddfa effeithlonrwydd ynni A neu B.

Hamdden

Arweiniad ar Ansawdd	Rhai enghreifftiau posibl yw pwll nofio, campfa neu sawna. Nid oes gofyniad i ddarparu unrhyw un o'r rhain ac ni chosbir gweithredwyr am beidio â'u darparu, ond os ydynt yn eu darparu, byddant yn rhan o'r asesiad.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	• Y cyfleusterau hamdden sydd ar gael a'r mynediad atynt yn gyfyngedig. • Yr holl gyfarpar wedi ei gadw mewn cyflwr diogel.
2 Seren	• Dylai cyfleusterau fod o ansawdd eithaf da ac wedi eu cadw mewn cyflwr gweithio.
3 Seren	• Gallai arbenigo ar un prif fath o weithgarwch at safon dda. • Yr holl gyfleusterau a chyfarpar mewn cyflwr da. • Oriau agor sy'n briodol i'r math o gyfleuster.
4 Seren	• Dewis ehangach o gyfleusterau. • Cyfleusterau o safon dda iawn sy'n lân ac wedi eu cynnal yn dda. • Gallai gynnwys ystafelloedd newid os yw'n briodol.
5 Seren	• Cyfleusterau o safon ragorol a'r cyfarpar mewn cyflwr rhagorol. • Oriau agor estynedig i fodloni anghenion cwsmeriaid.

Siop/Bar/Bwyty

Arweiniad ar Ansawdd	Nid oes gofyniad i ddarparu'r rhain, ond os ydynt wedi eu darparu e.e. ar gyfer adeiladau hunanddarpar ar barciau carafannau, byddant yn rhan o'r asesiad.
Dangosyddion Ansawdd y Graddau Sêr	
1 Seren	**Siop**: • Oriau agor i fodloni anghenion cwsmeriaid. Gallai fod yn gyfleuster sy'n rhannu lle â derbynfa. Y cwbl mewn cyflwr da gyda safon dda o lendid. **Bar/bwyty**: • Cyfleuster ar gyfer prynu prydau/byrbrydau/diodydd ar adegau penodol. • Gallai nifer y seddau fod yn gyfyngedig. • Dewis cyfyngedig o fwydydd a diodydd ar gael.
2 Seren	**Siop**: • Maint y siop a'r stoc yn gyfyngedig. Cyfleuster eithaf da yn gyffredinol a golwg daclus arno. **Bar/bwyty**: • Digon o seddau i gynnwys y rhan fwyaf o'r gwesteion. Y cyflwr a'r ansawdd yn eithaf da at ei gilydd.
3 Seren	**Siop**: • Wedi ei lleoli'n dda ar y cyfan, stoc dda o eitemau i ddefnyddwyr. • Yr adeiladwaith a'r addurn mewn cyflwr da a safonau da o ran gwaith cadw tŷ. • Oriau agor sy'n briodol i'r math o gyfleuster a'i ddibenion e.e. y dewis a'r math o nwyddau. **Bar/bwyty**: • Safonau da o ran addurno a gwaith cadw tŷ. • Digon o seddau i gynnwys yr holl niferoedd tebygol o ddefnyddwyr. • Dewis da o fwydydd a diodydd ar gael. • Oriau agor sy'n briodol i'r math o gyfleuster a'i ddibenion e.e. maint ac arddull.
4 Seren	**Siop**: • Y tu mewn a'r cyfarpar wedi eu cadw'n dda iawn. Tystiolaeth o sylw i fanylion ynghylch glendid. **Bar/bwyty**: • Adeilad hwylus sydd wedi ei ddylunio'n dda. Wedi ei addurno at safon dda iawn ac mewn cyflwr da. • Safonau da iawn o ran gwaith cadw tŷ. • Seddau cyfforddus i'r holl westeion a'r rheini ar uchder priodol ar gyfer bwyta. • Dewis da iawn o fwydydd/diodydd ar gael.
5 Seren	**Siop**: • Siop sydd â stoc helaeth a dewis cynhwysfawr o nwyddau, yn hollol lân, yn daclus a'r addurniadau mewn cyflwr rhagorol. • Oriau agor estynedig i fodloni anghenion cwsmeriaid. **Bar/bwyty**: • Adeilad hwylus a helaeth sydd wedi ei ddylunio'n dda. Yr addurniadau o safon ragorol ac mewn cyflwr rhagorol. • Safonau rhagorol o ran gwaith cadw tŷ. • Dewis eang o fwydydd/diodydd ar gael. • Oriau agor estynedig i fodloni anghenion cwsmeriaid.

Côd Ymddygiad ac Amodau Cyfranogi

CÔD YMDDYGIAD

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr dderbyn y Côd Ymddygiad isod a chadw ato:

- Cadw safonau o ran gofal am westeion, glendid, a gwasanaeth sy'n briodol i'r math o sefydliad;
- Disgrifio'n gywir mewn unrhyw hysbyseb, taflen wybodaeth neu gyfrwng printiedig neu electronig arall, y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir;
- Egluro i ymwelwyr beth yn union sydd wedi ei gynnwys yn yr holl brisiau a roddir am lety, gan gynnwys trethi, ac unrhyw ffioedd ychwanegol eraill. Dylid hefyd egluro'r ffioedd am wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol;
- Rhoi datganiad clir ar y polisi ar ganslo archebion i westeion ar adeg archebu, h.y. dros y ffôn, drwy ffacs, e-bost yn ogystal â gwybodaeth brintiedig a roddir;
- Cadw at y prisiau a gynigiwyd ar adeg archebu am lety a gwasanaethau eraill a pheidio â'u codi'n uwch;
- Rhoi gwybod i westeion ar adeg archebu, ac ar ôl hynny os bydd unrhyw newid, os yw'r llety a gynigir mewn rhandy ar wahân neu adeilad tebyg a dangos lleoliad llety o'r fath ac unrhyw wahaniaeth o ran cyfforddusrwydd a/neu amwynderau rhyngddo a'r llety yn y sefydliad;
- Rhoi i bob ymwelydd ar ei gais fanylion taliadau sy'n ddyledus a derbynneb, os gofynnir am un;
- Delio'n brydlon ac yn gwrtais â'r holl ymholiadau, ceisiadau, archebion a gohebiaeth gan ymwelwyr;
- Sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i drafod cwynion ac yr ymchwilir yn brydlon ac yn gwrtais i gwynion a geir ac y rhoddir gwybod i'r ymwelydd am y canlyniad;
- Rhoi ystyriaeth ddyladwy i anghenion ymwelwyr sydd ag anableddau ac ymwelwyr sydd ag anghenion arbennig, a gwneud darpariaeth addas lle mae hynny'n gymwysadwy;
- Darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu drefniant tebyg a chydymffurfio â'r holl ofynion statudol o ran cynllunio a diogelwch a'r holl ofynion statudol eraill;
- Caniatáu mynediad rhesymol i un o gynrychiolwyr Croeso Cymru i'r sefydliad ar ei gais i gadarnhau bod y Côd Ymddygiad yn cael ei ddilyn.

AMODAU AR GYMRYD RHAN

Mae'n ofynnol i'r holl sefydliadau sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau graddio Croeso Cymru wneud y canlynol:

- Cwrdd ag isafswm gofynion mynediad Croeso Cymru ar gyfer graddio yn y sector llety perthnasol neu ragori arno;
- Cadw at Gôd Ymddygiad Croeso Cymru;
- Cael asesiad bob blwyddyn ac os ceir cwynion gan gynrychiolydd sydd wedi ei awdurdodi gan Croeso Cymru;
- Talu ffi arolygu flynyddol;
- Darparu Datganiad Mynediad i'r Anabl

Newid Perchnogaeth

Pan gaiff sefydliad ei werthu, ni ellir trosglwyddo'r radd bresennol i'r perchennog newydd. Mae'n ofynnol i'r perchennog newydd wneud cais am gymryd rhan yng nghynllun graddio seren Croeso Cymru.

Arwyddion

Os bydd sefydliad, am ba bynnag reswm, yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yng nghynllun graddio Croeso Cymru, rhaid tynnu'r holl arwyddion arddangos a deunydd printiedig perthnasol ar unwaith.

Dylai'r holl raddau Sêr gael eu defnyddio bob amser ar y cyd â logo perthnasol Croeso Cymru.

Bydd unrhyw restriad yng nghyhoeddiadau/ar wefan Croeso Cymru ac o fewn rhwydwaith y Canolfannau Croeso yn amodol ar gymryd rhan yn barhaus yng nghynllun arolygu a graddio Croeso Cymru.

Byddai methu ag ufuddhau i'r amodau hyn yn gallu arwain at wneud y sefydliad yn anghymwys i ddangos neu ddefnyddio cymeradwyaeth Croeso Cymru ar unrhyw ffurf.

BETH I'W WNEUD OS NAD YDYCH YN CYTUNO Â'R RADD SÊR A RODDWYD

Os ydych yn teimlo bod gennych le i anghytuno ar y radd Sêr a roddwyd i'ch eiddo, neu os ydych yn anghytuno â rhai agweddau ar adroddiad yr Asesydd Ansawdd, byddwch cystal â chysylltu â ni cyn pen 21 o ddiwrnodau wedi ichi gael yr adroddiad ysgrifenedig. Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0300 062 2000 neu anfon neges e-bost atom yn quality.tourism@wales.gsi.gov.uk a byddwn yn ceisio ateb eich pryderon. Fel arall, efallai y byddwch am ysgrifennu atom yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR

www.cymru.gov.uk/twristiaeth

MANYLION CYSWLLT

Os hoffech wneud cais am ymweliad ar gyfer gradd Seren neu drafod unrhyw fater perthnasol sy'n codi o gynnwys y canllaw hwn, cysylltwch â ni yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR

Ffôn: 0300 062 2000
E-bost: quality.tourism@wales.gsi.gov.uk

Gallwch hefyd gael ffurflen gais am raddio, manylion ffioedd a fersiwn electronig o'r canllaw hwn drwy fynd i'n gwefan www.cymru.gov.uk/twristiaeth a chlicio ar "Graddio".

Visit Wales
Croeso Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government